Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

# FLORES POETARUM
# BRITANNICORUM.

~~15. f 11.~~

DOMI NUS ILLU MINA TIO MEA

Taylor Institution.

1879

~~Celtic I A 87~~

C 4050.5


14760 DAVIES (John) [FLORES POETARUM BRITANNICORUM] Adargraphiad Llythyrenol o Flodau y Beirdd Brytannaidd, a gydgunnullwyd gan y dysgedig Dr. John Davies o Fallwydd; Ynghyd â Rhagdraethawd ar Farddoniaeth Gymreig gan yr enwog Gadpen William Midelton, 12mo. *facsimile, cloth*, 5*s*
*Privately printed, Llundain*, 1864 *(from the original, Mwythig*, 1710)

Literal Reprint of the Flowers of the British Poets, collected by Dr. John Davies; with Captain Midelton's Essay on Welsh Poetry. Highly valuable for Welsh scholars, the original edition being no longer obtainable. The reprint was carefully made by the late Rev. Mr. Jones of Rotherhithe at his own private press, and he has added a facsimile of Midelton's handwriting.

# Blodau y Beirdd Brytannaidd.

## SYLHABHEU BOCALOC.

---


hwlyn goer ae hel yn gas — a
hwlyn ae wreid lawn olwres — e
hwlyn ddu bril yn ddi bris — i
hwlyn nar ddeheulaw y nos — o
hwlyn wag wehilion us — u
hwlyn a dry hoelion drws — w
hwlyn a gerdd bob hoewlys — y
hwlyn acth yn haihelys. — y.
wiliam midelton.

---

Llaw-ysgrifen y Cadpen Wiliam Midelton wedi ei chymmeryd allan o Ramadeg Shôn Dafydd Rhys yn Llyfrgell y Parch. Robert Jones o Rotherhithe. Ysgrifenwyd hi o ddeutu y flwyddyn, 1592.

ADARGRAPHIAD LLYTHYRENOL

O

# FLODAU Y BEIRDD

BRYTANNAIDD,

a gydgynnullwyd gan y dysgedig

Dr. JOHN DAVIES,

o Fallwyd,

Awdur y *Dictionarium Britannico-Latinum*, ac *Antiquæ Linguæ Britannicæ Rudimenta.*

Ynghyd â Rhagdraethawd ar

FARDDONIAETH GYMREIG,

gan yr enwog

Gadpen WILIAM MIDELTON,

Awdur *Psalmæ y Brenhinol Brophuyd Dafydh.*

*LLUNDAIN:*

MDCCCLXIV.

15 ... 1

15 JUN 1927

I'R

# TYWYSOG

# LOUIS LUCIEN BONAPARTE,

## D. C. L.

UCHEL SENEDDWR FFRAINGC,

UN O BRIF IEITHYDDION YR OES,

A NODDWR GWRESOG LLENYDDIAETH

Y CYMRY,

Y CYFLWYNIR YR ADARGRAPHIAD HWN O

"FLODAU Y BEIRDD BRYTANNAIDD,"

GAN OSTYNGEIDDIAF AC UFUDDAF WASANAETHYDD EI UCHELDER,

ROBERT JONES.

*RHUDD-DDWR-HYDD,*
*GORPHENAF*, 1864.

# Rhagymadrodd,

FY amcan yn cyhoeddi adargraphiad llythyrenol o'r llyfr bychan hwn, yw ei ddiogelu rhag ſuddo yn nyfrllif angof. Yr wyf yn teimlo gyda golygydd yr argraphiad cyntaf, nad gweddus fyddai i waith yſgolheig mor enwog a'r Dr. JOHN DAVIES, o *Fallwyd*, fyned ar gyfrgoll.

Nid oes, yn wir, fawr o amheuaeth mai y gwr gwladgarol hwnw oedd ei grynhöydd. Fe ym cymmellwyd i'r penderfyniad hwn, yn ngyntaf, gan dyſtiolaeth golygydd yr argraphiad cyntaf; yr hwn a'i cyhoeddodd o fewn can mlynedd ar ol marwolaeth y Doethawr; ac y mae yn dra thebygol fod yn y dyddiau hyny brawfiadau digonol o'r ffaith. Yn ail, wrth weled llythyrenau-dechreuol enw y DR. DAVIES yn gyſſylltedig âg amrai o'r cyfanſoddiadau. Yn drydydd, am fod titlau y gwahanol ddoſparthau yn y Lladinaeg. Hon oedd iaith gyffredin y Doethawr i droſglwyddo gwybodaeth o'r Gymraeg; oblegid ei bod yn ddealladwy i ddyſgedigion Lloegr a'r Cyfandir. Y mae ei Ieithadur a'i Ramadeg, y rhai a gyhoeddwyd yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, wedi eu hyſgrifenu yn yr un iaith.

Anhawdd iawn, yn breſennol, yw cael gafael ar gopi cyflawn o'r llyfr bychan hwn. An-

turiais, gan hyny, er mwyn rhagoroldeb ei gynnwysiadau, yn gystal ag er mwyn y Cymro enwog a'i cydgynnullodd, ei ail-argraphu; gobeithiaf y bydd yn dderbyniol gan y rhai a hoffant emmau "y Gymraeg wen."

Y mae yr argraphiad presennol yn un hollol lythyrenol. Er yr ysai fy mysedd yn fynych i gywreinio llawer o'i feiau, ni wnaethum un cyfnewidiad o werth sylw. Mae ei lythyreniad a'i eiriad, gan hyny, yn ardebau o ddull ysgrifenu y Gymraeg yn nechreu y ganrif ddiweddaf.

Fe chwanegodd y golygydd cyntaf rai pethau atto; ond nid er ei wellâad. A Shôn Rhydderch hefyd, mor hoff bob amser o'i gân a'i ringc ei hun, a attododd ychydig rigymau. Bwriedais unwaith eu chwynu allan; ond ar ol ychwaneg o ystyriaeth, penderfynais ei gyhoeddi yn ei ddull a'i wisg cyntefig.

# Flores Poetarum Britannicorum:

SEF,

BLODEUOG WAITH

Y Prydyddion Brytannaidd.

O GASGLIAD J. D. *S. S. Th. D.*

Y Cymry mwynion, cym'rwch y llyfr hwn;
Holl frodyr, darllenwch;
Di fâr yw a difyrwch,
A llawn budd, ond êl i'r llwch.

Os beia neb wrth ysbïo beieu,
Lle na bwyf yn gwrando,
Bydded fwyn, beied ' fynno,
Beied a difeied fo.

Printiedig yn y Mwythig,
gan T. JONES, dros D. LEWYS.
1710.

# Llythyr at y Darllenydd.

Y Cymro diledryw,

Yn gymmaint a dyfod i'm llaw y casgliad hwn o eiddo 'r dysgedig a'r Parchedig Ddoctor J. Dafis, hyd a'r ddeallais, a alwodd ef, *Flores Poetarum Britannicorum*, mi dybiais yn fuddiol ei brintio, yn gystal er mwyn ei Awdwr Parchedig ( yr hwn a haeddodd fwy ar law pob Cymro, nag a allont fyth dalu 'r pwyth iddo ) ac er mwyn y llyfr ei hun, yr hwn sydd yn cynnwys llawer o ddysgeidiaeth a chelfyddyd. Myfi a chwanegais ychydig atto, ac a osodais rai pethau buddiol eraill allan gydag ef. Gobeithio na bydd yn annghymmeradwy gennyt; gan fy mod yn gwybod hyn: os na wna ddaioni, na wna mo 'r niweid chwaith itti. Os bydd neb am farnu a chablu, hyn a ddywedaf: Na farned nes deall, dealled a barned. Os derbynni hyn o'm poen a'm llafur, fe allai ( os Duw a'i myn ) mewn amser y cei ychwaneg.

Yr eiddot yn yr Arglwydd,

Dafydd Lewis.

Llan-Llawddog,

Gor. 10. 1710.

## L L Y F R

# BARDDONIAETH.

O WAITH Y

## Capten William Middleton,

CYMMWYS IW OSSOD YMA.

BARDDONIAETH yw celfyddyd o ganu cerdd dafod yn dda. Sef yw hynny, plethu ac eiliaw caniadeu Cymreig yn gerddgar bencerddieidd.

Pedwar peth a berthyn at gerdd dafod: cymhariad, odl, cynghanedd, a mesur.

CYMHARIAD yw cymharu pob braich o'r pennill i gyd atteb â'r gyntaf: a hynny a ellir o ddau fodd : ſef, cymhariad ddiſgyblaidd a chymhariad bencerddiaidd.

Dwyryw GYMHARIAD *Ddisgyblaidd* y ſydd : ſef, cymhariad lythyrennol a chymhariad ſynhwyrol.

*Cymhariad Lythyrennol* yw, cymharu y llvthyren wreiddiol âg un o'i rhyw yn gyſſefin pob braich trwy 'r pennill, fal hyn :

Pwy ſy ddewrgwbl, pais ddurgorph ?
Pwy a rwym camp o rym corph ? *G. H.*

*Cymhariad Synhwyrol* yw, pan fyddo 'r fraich gyntaf heb gyflawn synwyr ynddi; eithr gorfod ei chyrchu at yr ail i gyflawni 'r synwyr, heb gymharu 'r llythyrenneu gwreiddiol, fal hyn:

Rhaid fydd, lle rho Duw ei fâr,
Dwyn eginyn da 'n gynnar. *T.A.*

CYMHARIAD *Bencerddieidd* yw, pan fyddo rhyw orchest ar y gymhariad mwy nag ar y ddwy uchod; a hynny a ellir o dair ffordd; sef, cymhariad lythyrennol synhwyrol, cymhariad gynghaneddol lythyrennol, a chymhariad gyfochr.

*Cymhariad Lythyrennol Synhwyrol* yw, pan fyddo 'r llythyrenneu gwreiddiol yn cyd-atteb, ac yn cymharu o'r un rhyw, ac yn cvflawni 'r synwyr ddeffygiol yn y fraich gyntaf hefyd; sef, y ddwy gymhariad ddisgyblaidd yn un, fal hyn:

Ni bu Rodn, nai Beredur,
Negydd o'i win nag o'i ddûr G. G.

*Cymhariad Gynghaneddol Lythyrennol* yw, pan fyddo 'r hanner cyntaf i'r fraich yn atteb mewn croesgynghanedd i'r hanner olaf o bob braich trwy 'r pennill, fal hyn:

Wyd awdur diwyd ydyn,
Jôn didwyll hynny d'wedwn,
Nid odiaeth un od adwen,
Ond ydoedd o waed Odwin. *M.*

A hyn a ddeallir yn eglur pan ſoniwyf am groes gynghanedd gyfan.

*Cymhariad Gyfochr* yw, pan fyddo dan-ſyllafog eirieu 'n dechreu 'r mesur; er torri 'r cymhariad lythyrennol ar y gytſain wreiddiol rhaid iddynt gyfochri yn un-ſain mewn accen dderchafedig, ſal hyn:

Mannau mwyn am win a medd,
Tannau miwſig tôn maſwedd.

Os bydd bogail yn atteb i gytſain, nid torr cymhariad ydyw, ſal hyn:

Nid cyfled gweled y gwir,
Ar ei wyneb â'r anwir. *J. S.*

Neu ſogail yn atteb i amryw ſogail arall, ſal hyn:

Urddedig arwydd ydoedd,
Ethol myrr o Fethlem oedd. D. E.

Ni thyrr *H*, arwydd ychenaid, na chynghanedd na chymhariad. Ac os bogail a fydd gwreiddiol yn y fraich gyntaf, cytſain ni thyrr gymhariad, fel hyn:

Awn â bûn yno beunydd,
Glas a gwyn dan glos y gwydd. *D. E.*

Bellach ſoniwn am odl.

ODL yw cydatteb ſain, mewn ſyllafeu perthynas; a hynny ſydd o ddau ryw; ſef, unodli a phroeſtio.

UNODLI yw, bod ſyllafeu o'r un rhyw yn cydatteb i'w gilydd ; naill ai mewn perfedd braich, neu 'n y brif odl.

Am y gyntaf, mi a'i dangosaf mewn lle cyfaddas, ſef, ymmyſg y cynghaneddion. Eithr unodli yn y brif odl yw, pan fyddo ſyllafeu unrhyw yn atteb i'w gilydd, ac yn unodli, trwy'r caniad neu'r pennill: ac at y rhan hon y perthyn anian rheol y ſyllafeu oll; canys ni unodla â ſyllaf dalgron onid talgron arall, a hynny o'r un bwys, o bydd y ddwy o accen dderchafedig. Bogail a unodla â'r un ſogail; lleddf â lleddf; dipthong â dipthong o'r un rhyw; a rhai 'n o'r un bogeilieid a chydſeinieid, ſal hyn:

Talgron ·

Mingamai hi mewn gwmon,
Morcath a'i brath dan ei bron. *J. G.*

Lleddf:

Ychen ynt cochion unoed,
Uwch eu cyrn na breichieu coed. *Ll.*

Dipthong:

Mal y fydd, a maels iddaw,
Mae ſal draig i 'mafael draw. *Ll.*

Ni chydwedda mewn perfedd braich, yn enwedig yn yr orphwysfa, ſyllaf i unodli â'r brifodl. Hefyd ni ddychon yr un gair fod ddwy-waith ar y brifodl (oddieithr o fewn cywydd) oni bydd ſynychach, neu 'n traethu yſmalhâwch cariad.

Odl hefyd a ddychyn fod o gûdd lythyr en o'r gair a fo 'n dilyn, fal hyn:

Dyſgais i godi gyda 'r ehedydd,
A rhodio 'r un dalar: &c. *J. o Garno.*

PROESTIO yw newid bogeiliaid neu ddipthongieid, ac heb newid cydſonieid yn y brifodl. Dau ryw broeſt y ſydd; proeſt cyfnewidiog a phroeſt cadwynodl.

*Proeſt Cyfnewidiog* yw, pan newidier pob prifodl o'r mefur, a'r ſyllafeu o'r unrhyw; fal hyn:

O'r gwinwydd daroganent,
O ganon o ogoniant,
O ward bron dan euraid brint,
O wir gorph oedd wyry gynt. *L. G.*

Ni chydwedda ſyllaf yr orphwysfa i broeſtio a'r brifodl mewn braich o bennill un-odl.

*Proeſt Cadwynodl* yw, pan fo 'r fraich gyntaf a'r ail yn proeſtio, &c. a phob yn ail fraich yn cydodli, fal hyn:

Myſi i'm Dnw, hoyw-Dduw hynt,
A ganaf ei ogoniant:
A wnaeth i'm helaeth helynt,
A gwir ddawn ac urdduniant. *M.*

Ni chydbroeſtia onid ſyllafeu o'r unrhyw.

Digon yw hyn o ſon am odl; ſoniwn bellach am y cynghaneddion.

CYNGHANEDD yw, eiliaw a phlethu braich o bennill ar gerdd dafod. Dwy ryw gyng-

hanedd y ſydd; ſef, cynghanedd groes, a chynghanedd unodl.

CYNGHANEDD GROES yw, pan fo 'r cytſonieid o flaen ſyllaf yr orphwysfa yn atteb i'r rhai ar ol. Dwy ryw gynghanedd groes y ſydd; sef, cynghanedd draws a chynghanedd groes gyfan.

CYNGHANEDD *Draws* yw, pan fo un gytſain, neu fwy, yn atteb i'r olaf, a'r rhai neſaf atti, ar draws y geirieu llanw yn y perfedd. Y gytſain gyntaf yn atteb i'r neſaf at y brifodl, fal hyn:

Tad, brodyr, neiaint, plant, aeth. *T. A.*

Dwy gytſain yn atteb i ddwy, fal hyn:

Bygwth y mae 'r gloyw bigau. *D. G.*

Tair:

Gleiſion, fal wybr goleusyth. *D. G.*

Pedair:

Byrblu rhewedig berwbla. *D. G.*

Pump:

Gwae a fai 'n brudd rhag ofn brad. *G. I.*

CYNGHANEDD *Groes Gyfan* a blethir o'r holl gytſonieid a fyddont o flaen ſyllaf yr orphwysfa, yn cydatteb olynol â'r rhai o flaen y brifodl, drwy gyfnewid bogeilieid, fal hyn:

Pur yw ei glod, Pôr y glyn.

Dwy ryw groesgynghanedd gyfan y sydd; sef croes rywiog, a chroes afrywiog.

*Croesgynghanedd gyfan rywiog* yw, pan fo gair yr orphwyssa a gair y brifodl yn un-syllafog: neu pan fo gair yr orphwysfa yn lluaws-syllafog, a gair y brifodl yn lluaws-syllafog hefyd; ac yno y gellir ei throi wyneb yngwrthwyneb, fal hyn:

Am hen Iarll mae hyn o iawn.
I farnu a fu arnynt. *L. M.*

*Croesgynghanedd gyfan afrywiog* yw pan fo 'r gair o flaen yr orphwysfa yn unsyllafog, a gair y brisodl yn lluaws-syllafog; fel nas gellir eu dattroi wyneb yngwrthwyneb, fal hyn:

Ym mhob ing, ym mhob angen. *D. N.*

Mae hefyd yn rhydd, wrth eiliaw croesgynghanedd, adu y llythyren *N*, pan fo hi yn gyssefin, (sef yn lythyren wreiddiol, neu 'r flaenaf gytsain o'r fraich) heb un yn atteb iddi ar ol yr orphwysia; ac yno y gelwir y cynghanedd, *N* coll y gyntaf, fal hyn:

Ni roi dolc ar ei wawd yn,
Ni bu 'n frith bin o'i frethyn. *R. N.*

Gochelwch ym mhob croesgynghanedd rhag bod marchawglythr heb fogail rhyngthi a'r marchawg yn syllaf yr orphwysfa; oni bydd syllaf o'r unrhyw i'w hatteb yn y nesaf at y brifodl.

Cynghanedd Unodl yw, pan fyddo 'n unodl o fewn canol y fraich. Dwy ryw gynghanedd unodl y ſydd : unodl lûſg ac unodl ſain.

Cynghanedd *Lusg* yw, pan fo rhyw ſyllaf o flaen y chweched yn unodli ac yn llusgo at y chweched, a'r brifodl yn accen ddeſcynnedig, fal hyn :

Goreu bugail i'r dailiaid. *Ll.*

Ac o gyſwllt cydſonieid, fel hyn :

Nid y ci carth flew arthfloch. *J. G.*

Ni wedd cynghanedd lûſg ar y fraich olaf i'r un o'r meſureu.

Cynghanedd *Sain Unodl* yw, pan fo 'r gwant a'r rhagwant yn unodli ; a'r rhan o'r fraich ar ol y rhagwant yn cynghaneddu â'r rhagwant, drwy gydatteb cydſonieid a chyfnewid bogeilieid ; ac nid oes meſur hyd y gwant na'r rhagwant, mwy na gorphwysfa cynghanedd lûſg fal hyn :

Plas, to dulas, ty deiliawg. *J. T.*

Ni chydwedda yn unodl y sain ddwy ſyllaf mewn accen dderchafedig oni byddant un bwys. Sain ddyblyg, fal hyn :

Por, dor, dar, gwanar gwinau. *J. G.*

Gellir hefyd, a hynny 'n orchestol, osod amryw gynghaneddion ar yr un fraich ;

ſef, ſain o gyſwllt a chroeſgynghanedd ynghyd; fal hyn:

I gelli-wig ac i'w llys. *Sp. V.*

Seingroes:

Aeth hiraeth i wyth Harri. *L. M.*

Seingroes o gyſwllt goll y gyntaf, neu ewinog ar air mwys; fal hyn:

Nan Conwy, man cawn y medd. *M.*

Sain traws o gyſwllt a chroes ddwbl gyſwllt ewinog; fal hyn:

Syr o'i ryw, Syr yr oes hon. *L. M.*

A'r holl gynghaneddion ar yr un fraich, trwy orcheſtion, mewn saith modd, barnent yr athrawon; fal hyn:

Tro ym, tro yma, at Rys. *M.*

Digon bellach yw hyn o amnaid i rybuddio 'r darlleydd athrylithgar i chwilio cerdd yr athrawon awduraidd pencerddiawl, lle cânt weled eu gwala o ſiampleu gorcheſtawl, os craffant ar y cynhildeb.

Bellach soniwn am y mesureu.

Mesur yw rhif nodedig o ſyllafon mewn braich, neu o rifedi breichieu mewn pennill. Rhif, neu nifer, y ſyllafon mewn braich a elwir Cyhydedd. Dwy ryw gyhydedd ſydd, ſef, cyhydedd meſur, (ac am honno y ſoniaf ym myſg y meſureu) a chyhydedd braich.

Saith ryw GYHYDEDD *Braich* y ſydd; ſef, ſaith golofn cerdd dafod. Ac fel hyn y doſperthir hwynt:

*Y Gyhydedd Ferr* a feſurir o bedwar ſyllaf mewn braich.
*Y Gyhydedd Wen* o bump;
*Y Gyhydedd Las* o chwech;
*Y Gyhydedd Gaeth* o ſaith;
*Y Gyhydedd Draws* o wyth;
*Y Gyhydedd Drosgl* o naw;
*Y Gyhydedd Hir* o ddeg ſyllaf; ſal hyn:

Gruffydd griffwn,
O dad Owein Dwnn,
Brau wyt wyr Robert Dwnn,
Praffwydd wyd imp Ruffydd Dwnn,
Praffwaed dydd daed, Maredydd Dwnn;
Pwy yn rhoi dy aur pai Henri Dwnn?
Pwy 'n orhoff dda, da, pai hen Ruffydd Dwnh.
*L. M.*

MESUR, ſef PENNILL, yw nifer o freichieu ar un neu fwy o'r cyhydeddion, trwy gadw cymhariad, cynghanedd, gair cyrch, gair toddaid, cyfochriad, ar yr un caniad.

Tri rhyw feſur ſydd: cywydd, owdl, ac englyn.

Tri rhyw fesur CYWYDD ſydd; ſef, cywydd deuair, cywydd llosgyrnog, ac owdl gywydd.

Dau ryw GYWYDD *Deuair* sydd, sef, cywydd deuair fyrrion, a chywydd deuair hirion.

Cyn dechreu dosparthu un o'r mesureu, rhaid im' ossod ar lawr reolau cyffredin a berthynant at bob un o'r mesureu. Bellach llyma 'r rheoleu i gyssylltu ynghyd y cymhariadeu, yr odleu, y cynghaneddion, a'r mesureu.

1. Pob cymhariad a wasanaetha ym mhob rhai o'r mesureu.

2. Pob odl, o bydd hi 'n unrhyw â 'r odl gyssefin flaenor, unodl fydd a chywir ganiad drwy y mesureu, eithr mewn proest.

3. Ni chenir cadwynfyr na gorchest y beirdd heb groes gynghanedd ym mhob braich.

4. Pob cynghanedd wasanaetha ac a gynghanedda yn gywir ganiad ym mhob braich.

5. Edrychwch am orchestion y mesureu wrth ddosparthu pob pennill ar ei ben ei ben hun.

Pennill o *Gywydd Deuair Fyrrion* ddylwn yn nesaf son am dano. A hwnnw a fesurir o ddwy fraich o'r gyhydedd ferr; sef, pedwar syllafog bob braich: y naill, a'r brifodl yn accen dderchafedig, sef, gair unsyllafog; a'r llall yn accen ddescynedig, sef, gair a mwy nag un syllaf yn y brifodl, fal hyn:

Croyw fir, cryf fedd,
Cof yw cyfedd. *S. V.*

Pennill o *Gywydd Deuair Hirion* a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth;

ſef, ſaith ſyllaf bob braich, ac yn unodli â'r accenion amrafael, fal hyn :

Yſpys y dengys y dyn,
O ba radd y bo 'i wreiddyn. T. A.

Pennill o GYWYDD *Llosgyrnog* a feſurir o ddwy fraich o'r draws gyhydedd, yn unodl â ſyllaf gorphwysfa y gynghanedd yn y lloſgwrn, fal gair cyrch ; a'r lloſgwrn yw y drydedd fraich ar y gaeth gyhydedd, yr hwn ſydd yn arwain y brifodl trwy 'r cywydd, fal hyn :

Yr hen ddaiar hon a dduodd,
Y gloyw awyr a ddrwg liwiodd,
A grynodd pan goroned. *Sp. V.*

*Owdl* GYWYDD a feſurir o ddwy fraich o'r gyhydedd gaeth ; yr odl olaf o'r fraich gyntaf yn cyrchu 'n unodl, ac mewn amryw accen, at air yr orphwysfa yn yr ail fraich, ſef ar air cyrch, a'r odl olaf yn unodli drwy 'r cywydd. Rhaid i'r gynghanedd yn y fraich olaf fod yn gynghanedd groes rywiog, fal y galler troi owdl gywydd yn gywydd deuair hirion, fal hyn :

Llwyth Trefor, llu waith trafael,
Llew ebrwydd hael, llwybraidd hedd. *S. V.*

Darfu ſon am benhillion o gywydd.

Yr ail gaingc o brydyddiaeth yw Owdl.

OWDL yw caniad o amryw feſureu yn ol yr arfer ſathredig ; eithr wrth gerdd y tri

phrif-fardd a dull Cynddelw, ac arfer holl ieithoedd Europa.

Ni ddylai onid un mesur fod yn yr un caniad. A pha fesur y dechreuer, eynnal hwnnw trwy 'r owdl, pe gorchest y beirdd fai. Ac os hir fyddai 'r caniad, mae 'n rhydd newid y brifodl.

Wyth mesur Owdl y sydd: cyhydedd, toddaid, gwawdodyn, hupynt, cadwyn fesur, cyrch a chwtta, clogyrnach, a gorchest y beirdd.

Tair CYHYDEDD *Mesur* y sydd; sef, cyhydedd wythban, cyhydedd nawban, a'r gyhydedd wendrosgl.

*Cydydedd Wythban* yw pennill o bedair braich ar y draws gyhydedd, sef, wythsyllafog bob braich, ac yn unodli drwy 'r owdl neu 'n proestio; fal hyn:

I'r Mab cyfarchaf rhwyddaf rhin,
I'r Tad a'r Yspryd gloywbryd, Glân,
Neud mau yw cofiau cân i'm cyfun?
Nid rhaid i'm ammeu llyfreu llên. *Tal.*

*Cyhydedd Nawban* a fesurir o bedair braich, ar y golofn drosgl, a phob braich yn unodl drwy 'r owdl, fal hyn:

Na bo 'n un aelod boen anialwch,
Na gweyw i'w ddilyn nag eiddilwch;
Er dwfr restrwaed i farw rhwystrwch,
Er y gwirion waed, Fab, gwrando f' ebwch!

Y *Gyhydedd Wendrosgl* a fesurir o dair braich, y ddwy gyntaf o bum syllaf bob

un, yn unodl â gair yr orphwysfa yn y drydedd fraich, fel gair cyrch; a'r drydedd, o naw ſyllaf, yn arwain y brifodl drwy yr owdl, fal hyn:

> Torr weyw at yr ais,
> I'th ddwrn a'th harnais,
> Trech yw na malais tri chan milain. *G. T.*

TODDAID yw meſur o ddwy freich, lle bo gair ar ol y brifodl yn y fraich gyntaf yn toddi, o dri ſyllaf i ddau, o ddau i un. Y fraich gyntaf yn waſtadol o'r meſur hyn a fydd o ddeg ſyllaf; ſef, ar y gyhydedd hir. Yr ail fraich fydd naill ai o chwech, ai o naw, ai o ddeg ſyllaf. Pa gynghanedd bynag fo 'n y fraich gyntaf, rhaid i'r orphwysfa fod yn y pummed ſyllaf. Ac os cynghanedd ſain fydd, yr hon ſydd naturiolaf yn y man hyn, fe ellir goddef y gwant lle ſynner, am y bo 'r rhagwant yn y pummed ſyllaf. A'r ail fraich, ſef chwech ſyllafog, yn atteb i'r gair toddaid naill ai ar gynghanedd ſain, neu ar gynghanedd braidd gyfwrdd, hon ſydd rydd i'w chanu 'n y fraich yma; (ac mewn un o'r meſureu, onid y fraich olaf i hwn nid rhydd i'w chanu a phaladr englyn unodl union) a'r brifodl cyn y gair toddaid yn unodli â'r olaf o'r ail fraich; ac felly trwy 'r meſur.

> Da rhydd am gywydd i'm gaeau, a main
> Eiliw monwes degau; &c. *J. D.*

A thoddaid o'r meſur hwn ni chenir ond ynglŷn âg arall; am hynny toddaid ynglyn

y gelwir. Eithr o bydd yr ail fraich i'r toddaid o naw ſyllaf neu ddeg, rhaid i'r gynghanedd fod, naill a'i yn ſain at y gair toddaid, neu 'n groeſgynghanedd, ac yn atteb ar yr orphwysfa i'r gair toddaid, yr hwn ſydd yno 'n air cyrch; os naw, fal hyn:

Oes ffawydd na nydd neu onn yn wewyr,
Oes brenffyr, nas gyrr yn yſgyrion? *D.N.*

A thoddaid deg ſyllafog yn yr ail fraich ar groeſgynghanedd, fal hyn:

Fal gwlith awyr ffrith ar ffrwythau 'r ddaiar,
Fal grawn, fal adar, fal gro neu flodau. *T. A.*

Dau bennill a henyw o doddaid; ſef byr a thoddaid, a hir a thoddaid.

*Byr a Thoddaid* a feſurir o doddaid o un ſyllaf ar bymtheg, yn gyntaf, a phedair braich wyth ſyllafog; ſef, ar y gyhydedd draws; a thoddaid o'r unrhyw ar ol, yn unodl oll, fal hyn:

Duw Arglwydd, o rwydd wiw ras, da olud,
Oni deila gwnn blas,
Ail oferwaith i lafurwas,
Dwl pwl iawn geiſio adail plas.
A Duw oni wilia dinas,
Oferwr gwiliwr a phob gwas:
Duw yw gwiliwr gwr â'i guras, gadarn,
Duw a geidw bawb addas. *M.*

Os y meſur hwn a genir drwy 'r owdl, nid rhaid ond un toddaid rhwng pob pedair braich.

*Hir a Thoddaid* a fesurir o bedair braich o'r gyhydedd hir, a thoddaid o ugain fyllaf ar ol, yn unodl drwy 'r owdl, fal hyn:

I Fair da weiniaeth a fu 'r dewinion,
O raith refymmol wrth eirieu Simeon;
Mawr oedd i'r ddeulu, myrdd o urddolion,
Ymgais â'r feren, megis rhos irion;
Gwiriondeb Siofeb, dewifafon hi,
Gadu 'r gair iddi gyda 'r gweryddon. *G. T.*

GWAWDODYN yw mefur o amryw rifedi o freichieu ar yr un golofn; a hynny a wna ddau ryw wawdodyn; fef, gwawdodyn byr a gwawdodyn hir.

*Gwawdodyn Byr* a fefurir o ddwy fraich ar y gyhydedd drofgl, a thoddaid o bedwar fyllaf ar bymtheg ynglŷn, ac yn unodl trwy 'r owdl, fal hyn:

Ni phery onnen i'w pheirianneu,
Dan dewin ddyrnod, ond yn ddarnau;
Ewinawg, ofawg afeu braich a bron,
A nyddai linon yn ddolenneu. *Tr A.*

*Gwawdodyn Hir* a gyfanfoddir o bennill ar owdl a elwir, cyhydedd naw ban; fef, pedair braich ar y gyhydedd drofgl, a thoddaid o bedwar fyllaf ar bymtheg ar ol, yu unodl drwy 'r owdl, fal hyn:

Yn iach na helwyr na chynhaliaeth,
Na meirch o arial na marchwriaeth,
Na gweilch i'w harwain na gwalchwriaeth,
Na chwn awyddus na chynnyddiaeth,
Na cheifion mwyfon am wafanaeth gwledd,
Na chog i Wynedd na choguniaeth. *T. A.*

HUPYNT yw mesur a rydd i'r bardd rydd-id i ganu, naill ai 'n gynghaneddol ai 'n gyf-ochr. Dau ryw hupynt sydd; sef, hupynt byr a hupynt hir.

*Hupynt Byr* a fesurir o ddwy fraich; y gyntaf ar y gyhydedd fer, o bedwar syllaf; y llall ar y gyhydedd gaeth, o saith syllaf. Hefyd y fraich gyntaf ar air cyrch, naill ai mewn cynghanedd neu 'n gyfochr, yn atteb i'r orphwysfa yn y pedwerydd syllaf o'r ail fraich; a'r olaf yn unodli trwy 'r owdl; fal hyn:

E gasgl i gyd
Y bobl o'r byd, bu abl o'r bôn;
At blant bu lwydd.
Abram ebrwydd, arwydd wyrion. *M.*

*Hupynt Hir* a fesurir o dair braich; sef, dwy fal hupynt byr, ac un arall fal y gyntaf o'r ddwy; fel hyn:

It' f' eidduned,
Wyt ddymuned,
Eilwedd luned, wylweddw lonydd;
Uthr doluriais,
O'th ferch curiais,
A llafuriais fy lleferydd.

CADWYN-fesur yw pennill lle cadwyner y cynghaneddion yn orcheſtol. Dau ryw gadwyn-fesur sydd; sef, cadwyn fyr, a chy-fochr gyrch cadwynog.

*Cadwyn-fyr* a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws; a phob braich yn

cynghaneddu bob ail ſyllaf drwy bob braich; a'r gair olaf o'r fraich gyntaf yn cyfochri ar air cyrch at orphwysfa 'r ail; a'r olaf o'r drydedd fraich yr un modd, ar air cyrch cyfochr, yn atteb i orphwysfa y bedwaredd yn unodl; a'r pedwerydd ſyllaf o'r fraich gyntaf, a'r olaf o'r ail, a'r pedwerydd ſyllaf o'r drydedd fraich, a'r olaf oll, yn unodli trwy 'r owdl; fel hyn:

Elis eiliog o'i lys olau,
Eilwad olau i wlad elwog;
Euran warrog o ran orau,
Ar y dorau ŵryd eurog.

*Cyfochr Gyrch Cadwynog* a feſurir o bedair braich ar y gyhydedd draws, fal cadwynfyr a hupynt hir ynglŷn âg ef i gwplhua 'r meſur. Hefyd y ſyllaf cyntaf o'r fraich gyntaf, y ſyllaf olaf o'r ail fraich, a'r ſyllaf olaf o'r bedwaredd fraich, yn unodl gyda phrifodl yr hupynt; ac felly trwy 'r owdl; a'r trydydd a'r pedwerydd ſyllaf o'r fraich gyntaf yn unodl gyfochr â'r trydydd a'r pedwerydd ſyllaf o'r drydedd fraich; a'r ddau ſyllaf olaf o'r fraich gyntaf yn unodli â'r trydydd a'r pedwerydd ſyllaf o'r ail fraich yn gyfochr ar air cyrch; ac felly y ddau ſyllaf olaf o'r drydedd fraich yn atteb yn gyfochr unodl, ar air cyrch, i'r trydydd a'r pedwerydd ſyllaf o'r bedwaredd fraich; fal hyn:

Gereint cwlen, gwr nod calis,
  Rod a phalis, rhed a philer,
Hyd y mwlen, hwde 'u malis ,
  Mwy, iaith Alis, yma 'th hwyler ;
    Capten ſiaſeu,
    Ceſtyll, plaſau,
  Gwyr curaſau, a grog croeſer ;
    Iacheiſt goſau,
    Galanaſau,
  A chydtraſau i chwi troſer.

CYRCH A CHWTTA a feſurir o wyth braich ; y chwech fraich gyntaf fal tri phennill o gywydd deuair hirion yn unodl ; a'r ddwy olaf fal pennill o owdl gywydd ar air cyrch, ond nad rhaid cadw accen ; a'r fraieh olaf yn unodli â'r chwech gyntaf; ac felly 'n arwain y brifodl trwy 'r owdl , fal hyn :

Erfai yw 'r llys ar for llon,
Hyn o les a wnai leiſion ;
E gair gwres yn y gaer gron,
E gair ſeigieu gwreſogion ;
A'r ceirw fry o barceu 'I fron,
A'r eogiaid o'r eigion ;
A gwenith a phob gwinoedd,
  Mae 'r tiroedd a'r mor tirion. *L. M.*

CLOGYRNACH a feſurir o bum braich ; y ddwy gyntaf ar y draws gyhydedd o wyth ſyllaf bob un ; y ddwy ganol, o bum ſyllaf bob un, ar y gyhydedd wen ; a'r olaf, o chwech ſyllaf, ar y gyhynedd las : y fraich gyntaf, a'r ail, a'r olaf, yn unodli trwy 'r owdl ; a'r drydedd a'r bedwaredd fraich yn unodli, ar air cyrch, â'r trydydd ſyllaf o'r fraich olaf ; fal hyn :

Y prophwydi, puraf hediad,
Aml o rinwedd, a'i mawl ranniad;
  Drwy gerdd draw a gair,
  I un Mab Ion Mair,
I'w gadair a'i godiad. *M.*

GORCHEST Y BEIRDD a fesurir o dair braich; y ddwy flaenaf o bedwar syllaf bob un ar y gyhydedd fer; a'r olaf, o saith syllaf, ar y gyhydedd gaeth; a'r ail syllaf o'r fraich gyntaf yn unodli â'r ail syllaf o'r ail fraich ac â'r ail o'r drydedd; hefyd y syllaf olaf o'r fraich gyntaf, a'r olaf o'r ail, yn unodli ar air cyrch â'r pedwerydd syllaf o'r fraich olaf; y syllaf olaf o'r fraich olaf yn arwain y brif-odl trwy 'r owdl.; ac o fewn pob pedwar syllaf o'r deuddeg cyntaf yn croesgynghaneddu 'n rhywiog ac yn unodli wyneb yngwrthwyneb; y tri syllaf olaf yn croesgynghaneddu â'r pedwar blaenaf yn y fraich olaf; fal hyn:

I'r drwg, waid rydd,
Oer wg e rydd,
A dwg, y dydd, dig i'w dal. *M.*

Soniwn bellach am Ynglynion.

YNGLYN yw mesur, naill ar ei ben ei hun ai mewn gosteg, neu mewn owdl. Dau ryw ynglyn y sydd; sef, ynglyn unodl ac ynglyn proest.

Tri rhyw YNGLYN *Unodl* sydd: unodl union, unodl cyrch, ac unodl crwcca.

*Ynglyn Unodl Union* a gyfansoddir o ddau fesur: sef, toddaid o un syllaf ar bymtheg, a phennill o gywydd deuair hirion ar ei ol ynglŷn âg ef; fal hyn:

Jesu i'n caru sy 'n dwyn coron nef,
Jesu Naf angylion;
Jesu yw Ior yr oes hon,
Jesu a geidw ei weision. *L. Gl.*

*Gosteg* yw caniad o ddeuddeg ynglyn unodl union yn unodli trwy 'r caniad.

*Ynglyn Unodl Crwcca* nid amgen mesur nag unodl union, eithr gorfod gossod y pennill o gywydd deuair hirion yn flaenaf, a'r toddaid ar ol; fal hyn:

Braidd yn fyw, bereiddwen ferch,
Briw digwyn bradog annerch;
Briwiad osodiad fy ferch ar loer gwlad,
Brad anfad bryd wenferch. *R. M.*

*Ynglyn Unodl Cyrch* a fesurir ac a genir fal y pedair braich olaf i gyrch a chwtta; fal hyn:

Gwenferch odidawg winfaeth,
Gyrrodd i wan gur oedd waeth;
Gerydd dig wiwrudd degau,
Gryd asau gyrru dwysaeth. *R. M.*

YNGLYN *Proest* yw mesur heb unodli fal yr holl fesureu, eithr yn proestio. Dau ryw ynglyn proest sydd: sef, proest cyfnewidiog a phroest cadwynodl.

*Proest Cyfnewidiog* a fesurir yn un hyd ag unodl cyrch, eithr lle dylai y brifodl fod, mae 'r syllaf olaf yn cyfnewid bogeil neu ddipthong, ac yn cadw 'r un gytsain trwy 'r pedair braich, mewn syllafeu o'r unrhyw; fal hyn:

Gwynedd am ein gwledd mae 'n gloff,
Marw llew 'r Prins, mae 'r lloer heb priff;
Marw 'n pen, a'n capten, a'n cyff;
Marw Salbri im' a'r sêl braff. *Tr. A.*

*Proest Cadwynodl* a fesurir o'r un hyd a phroest cyfnewidiog; eithr bod y fraich gyntaf a'r ail yn proestio yn y syllafeu olaf o bob braich; a'r drydedd yn proestio â'r bedwerydd; felly y fraich gyntaf yn unodli â'r drydedd, a'r fraich ail yn unodli â'r olaf yn y syllafeu olaf, bob braich, fal hyn:

Eglwyswr teg o leision,
Apostol o fab Iestyn,
Ail Daniel o wlad Einion,
Allwedd dysg a lleuddad wyn. *L. M.*

Rhydd i'r prydydd gysylltu y mesureu.

Y neb a chwennycha wybod ychwaneg, darllened Ramadeg

IEUAN DAFYDD RHYS.

# FLORES
# POETARUM
# BRITANNICORUM.

# FLORES
## POETARUM BRITANNICORUM.

### Y ddau Addaf. ADAMI DUO.

DAU Addaf oedd dydd a fu,
Od air weithian i draethu;
Un diriaid, enw daiarol;
Un o nef, awn yn ei ol.
Trown yngod, rhag trin angall,
Yr holl lu, o hwn i'r llall. *Raff. R.*

Un Adam ddinam i'w ddydd, a'n gwthiodd
I gaethfyd tragywydd,
Ag ail Adam, gweledydd,
Ar bren croes a'n rhoes yn rhydd.

### Gweniaith. ADULATIO.

NA chredwch air gwych rhydeg,
Antur o dwyll, ond trwy deg;
Gwenwyn ni wn gan un Iaith,
Mwy na gwenwyn mewn gweniaith. *T. A.*

### Adeilad ar y graig, nid ar y tywod.
### ÆDIFICANDUM IN SOLIDO, NON ARENA.

ADEILAD trwch, ar dal traeth,
Dŵr a'i bawdd, drwy wybyddiaeth.

Llunia adail, lle nodir,
Lle nid êl y llanw i dir. *W. LL.*

## Oedran a phara petheu Bydol a phetheu Nefol. ÆTATES & DURATIONES RERUM.

TRI oedran, hoywlan helynt,
Trioedd a fu gyhoedd gynt.
Tri oed pawl gwern a fernir
Ar gi da mewn erwgoed ir.
A thri oed ci, iaith hoywryw,
Ar farch, da ei barch er byw.
Tri oed march dihafarchdroed,
Ar ŵr; ond bychan yw'r oed?
Tri oed gŵr, herwr hoywrym,
Ar yr hydd, llamidydd llym.
Tri oed carw hwyrfarw, hirfain,
Ar fwyalch goed, eurfalch gain.
Tri oed y fwyalch falchdeg,
Ar dderwen mewn dairen deg.
Teir oes derwen a enwir,
O warrant hên, ar rwnn tir.
Er hyd oes dâr i'w harwain,
Byr para 'r hwya o'r rhain.
Pob un o hyn rhwyfyn rhôd,
A dderfydd yn ddiarfod,
"Nid gwiw i neb wrth'nebu;
Mor ing y daw 'r angeu du.
Angeu ni âd yn angof,
Na gwyllt, na diwyllt, na *dof*."
Ni a gweifion Iôn gwiwfyth,
Y gŵr *fry*, a bery byth;

Yn y *nef* yn Bendefig,
Heb drangc, heb orphen a drig;
Heb liw nos, gwiwnos ganu,
Heb fwg, heb dywyllwg du.
Jechyd heb orfod ochain,
O glwyf mor iached â'r glain.
Pawb yn ddengmlwydd, arwydd Iôr,
Ar hugain, heb ddim rhagor.
Lle mae pob prif ddigrifwch,
A phlâs ein Pennadur fflwch.
Gochel uffern, gethern gaeth,
A'i helwyr, drwy hy alaeth.
Lle mae 'n barod, cyfnod câs,
Bacheu, cigweinieu gwynias:
A'r eiry gwynn, cyn cannoed,
A'r iâ ni thoddes erioed.
A magleu, rhwydeu mal rhod,
Megineu, peirieu parod.
Awn bob ddau â golauad
I Eglwys Duw ein glwys Dad,
A thalwn (pam na thelir?)
Offrwm a degwm o dir. *Iolo.*

**Ceraint.** AMICI, CLIENTES, ET COGNATI IN PRECIO HABENDI.

GWYR a wna'r gŵr yn wrol,
Gŵr a wna gwŷr yn ei ôl. *Llo.*

Gŵr a wella 'r gwŷr wellwell,
A gwŷr a wna 'r gŵr yn well. *D. N.*

Naws carennydd nis crina,
Cywir a dwys fydd câr da.

Gwell ydyw, ac o llidir,
Gâr yn d' ol nag aur neu dir. *S. T.*

Trowch o wenwyn trwy 'ch iawnwaed,
Triagl yw gwynt arogl gwaed. *T. A.*

A garo lladd ei geraint,
A gyll ei frig oll a'i fraint. *For F.*

A dreiſio 'i wyr â'i draſſau,
A all yn hawdd oll wanhäu. *W. LL.*

Crin yw dyn, câr ni 'dwaenir,
Nid câr da, ond acr o dir. *S. T.*

A fo balch ef â heb wŷr. *D. N.*

## Cas Ceraint. Amicorum discordia. Lingua cohibenda.

Car yn cyhuddo arall,
Hawdd i'r llaw gyhuddo 'r llall.
Noethed bawb, nithied heb wir,
Fai gilydd, ef a goelir.
Gair a drig ar y drygwaith,
A'i liwio 'r gwaed lawer gwaith.
Cywilydd câr dros arall;
O bai wir llwyr yw bai 'r llall.
Attal ſaeth nid dilys ynn,
A êl unwaith o linyn. *T. A.*

## Adfyd a Gwrthwyneb. Afflictio purgat.

A nithio gloyw wenith glân,
Y llerr oll a yrr allan. *O. G.*

**Cariad, Ofn, Glewyd.** AMOR, METUS, FORTITUDO.

TRWY eirieu llid y try 'r llaill,
Trwy gariad y trig eraill. *H. D.*

Ofn dy lu o fewn dy wlad,
Etto goreu i ti gariad.
Gwell yw bodd a gallu byw,
Na dwyn ſwydd dyn ſy heddyw. *T. A.*

Gwell rhy draws heb gydnaws gwan,
Yn rhyw dro, na rhy druan.
Argoel yw, ni lywir gwlad
Oni cheir ofn a chariad.
Da yw'r maen lle bai dair mil,
Yngod gydà 'r Efengil. *R. Ll. R. R.*

Na phar d' ofn, Offeiriad wyd. *T. A.*

Ni mynn cariad ei wadu,
Na'i ddangos i lios lu. *D. G.*

Mae'r ddihareb mo'r ddiras,
Na bu gu iawn na bai gas. *I. Deul.*

**I'r Pant y rhed y dwr.** AQUÆ DEFLUUNT.

Y dwr pûr a red i'r pant.

**Crefft.** ARS.

GWELL yw Crefft meddir, hir hûd,
Na gwylan, *befr*, na golud. *D. G.*

**Cybydd-dod, Eluſeni, Haelioni.**
AVARITIA, ELEEMOSYNA, LIBERALITAS.

CRINO dyn yw cronni da. *T. A.*

Na ȧd drachwant yn drechach,
Nid yw'r byd onid awr bach. *S. T.*

Cymmer drwy wychder dy ran,
Gad i eraill gadw arian. *T. A.*

Iawnach i gybydd enwir,
Garu Duw nag erw o dir;
A phrynu *nef* trwy lefair,
Gan dlawd er cerdawd y cair.
Pryned ddyn prin oed ei ddydd,
A'i dda, *nef* iddo 'n ufydd.
Beth a dâl, onid dialedd,
Da 'r byd wrth fyned i'r bedd? *M. R.*

Colli 'r clustiau cau cedyrn,
Cilwg hir, cyn cael y cyrn. *G. Gr.*

### Drygfoes. AUDACIA, INVERICUNDIA.

EF ai'r afr, wrth ei ffafriaw,
Oll o'r drws i'r allor draw. *L. Mon.*

### Antur. AUSUS.

NI chafad pryd na chyfoeth,
Trin ddwys heb anturio 'n ddoeth. *B. Br.*

### Ymdrech y Cnawd a'r Yspryd. CARNIS ET SPIRITUS PUGNA.

YMARGIO, blino 'n ddwy blaid,
Mae yno 'nghorph am enaid.
Yr enaid ni châr ronyn
Garo y corph gorwag gwyn;
Ni fyn y corphyn, pe caid,
Iddo a fynno f' enaid.

F' enaid, o caid, a fyn cael
Fwyd o *nef* dan ei afael.
Y corph a fynn, heb naccäu,
Gael iddo win a gwleddau.
Yr enaid, yn wirionnach,
A dan y byd fal dyn bach:
Y corph a fynn a'r llyn llawn,
Ragoriaeth ar y gwiriawn.
Chwannog yw 'r corph bywiog bach,
I feddwi a chyfeddach:
Gofyn y mae am gyfedd,
Gofyn mae drachgefn y medd. *L. G.*

**Crist yw ein Ceidwad.** CHRISTUS UNICUM SACRIFICIUM ET UNICA SALUS. EJUS VULNERA.

NID oes offrwm, trwm yw 'r tro,
Oen Duw ufydd, ond efo. *R. R.*

Goreu pardwn gwn a gaid,
Gwaed yr Oen gadw'r enaid. *S. T.*

Ceisio gwilio, pob gweli,
Ar Dduw *nef* yr oeddwn i;
Un man cyfan nis cefais,
Heb gael ei waed, a heb glais. *F. B. kir.*

" Ni all Angel penfelyn,
Na llu o saint, ddim lles yn;
Na neb ond Un a'i aberth,
A roes i ni râs a nerth. *G. F. Ll. F.*

Pwy ar ôl a ddug ddolur
Er tynnu pawb o'r tân pûr?

Ni fydd yn yr oes a fo,
Un brenin mwy a'n pryno."

## Y Nef. CÆLUM. VI. ÆTATES & MORS.

DA yw *nef* i'r dyn afiach,
A da yw *nef* i'r dyn iach. *L. G.*

## Cyttundeb. CONCORDIA.

DA 'r ardd ychen mewn pen pant,
A chyttun, o chydtynnant. *W. Ll.*

Cymmer resswm, trwm bod rhôch,
A dod resswm da drossoch. *T. A.*

## Cyngor. CONSILIUM.

BWRW tŷ sy well, Brutus hâd,
O gyd alw, nag adeilad. *T. A.*

Gwir diau caiff gwrda call
Gyngor gan un llesg angall. *S. T.*

Llew enwog, gallai annoeth
Yn nghwrr dysg gynghori doeth. *S. T.*

Ef a gaid dysg, fagad hardd,
Gan ynfyd ac unionfardd. *T. A.*

"O rhoi gyngor rhag angen,
Edrych bwy a droech ei ben.
O gelli roi i gall ran,
Ac i angall, nag yngan.
Deall y gair diwall gwych,
Gwna d' atteb cyn y dwettych;
Am bwy 'r aeth, a pha draethen,
Ac wrth bwy, y gair o'th ben." *G.*

Na ro d' arian allan, ŵr,
Heb ŵystl it er neb bostiwr;
Ac o rhoi, drwg yw 'r rheol,
Cei lawn waith i'w cael yn ol.

" At gyfreithiwr, gwladwr glan,
Na ddyred yn ddi arian;
Nid plesser dy fatterion
I'r gŵr braiſg heb aur ger bron." *T.*

## Hygoeledd. CREDULITAS.

A goelio pawb, y glew pûr,
E ddaw 'n waith iddo wneuthur. *T. A.*

Clyw 'r ddeuchwedl, claiar ddichell,
Calon bur, cyn coelio 'n bell.

## Duw. DEUS.

NID oes arglwydd ond Jeſu,
Na brenin gorllewin llu. *Iolo.*

Gwell yw Duw na gallu dyn. *O. G.*

O bydd cyfyng heb eudduw
Gan ddyn, mae 'n ehang gan Dduw. *G. J. H.*

Duw a ry gwymp i'r drwg ŵr;
Duw a gyfyd ei gofiwr. *H. Ar.*

Oes im' ddim o ddaioni,
Onid a wnaeth ein Duw ni. *D. Ed.*

Rhan dda iawn, rhan Dduw yna,
Yw rhoi dawn fyth i'r rhai da:
Rhan dyn o'r nodeu uniawn
Yw, gwedi dêl, gadw y dawn. *S. T.*

Dialedd Duw a'i olwg
A ddaw yn drwm i ddyn drwg.
Dyfrys y denfyn Duw fry
Y dialedd lle dyly. *D. Ll.*

Ira rhodd ar wŷr heddyw,
A goreu ſtâd, yw gras Duw. *H. Ar.*

Rhaid i'r un y rho Duw ras,
Bydgerdded gydâg urddas. *T. A.*

Mwya gras yw ymgroeſi. *S. T.*

Gwaith blin ac annoethineb,
Ymryſon oll am ras neb. *T. A.*

Ni fynno Duw nef anwyl,
Ni lwydd ac nid rhwydd yr hwyl. *Sim. F.*

Y mae 'n well, be deellym,
Byth Duw na gobeithio dyn. *S. T.*

Gwae a grêd, uwch caledawr,
I ddim oll ond i Dduw mawr. *Iolo.*

Namyn a ddywettwy o Dduw a Mab Mair
Nid oedd iawn i ddyn ddywedyd gair. *Br. F.*

## Anghyttundeb. DISCORDIA FACILE ORTA, DIFFICULTER SOPITA.

GODDAITH a roir mewn eithin,
Gwanwyn cras, trwy 'r gwynnon crin;
Anhawdd fydd ei diffoddi,
Ac un dyn a'i hennyn hi.
Athrodion gweision y gwŷr
A bair adwyth rhwng brodyr:

Geirieu da a gwŷr i'w dwyn
A ddinystr y ddau wenwyn. *D. I. F.*
Ar Jesu mae rhannu rhod,
Ac o gythraul goeg athrod. *L. G.*

### Blaenor. Dux fortis.

Beth a yrr blaen byth ar blaid ?
Blaenor â byw ei lonaid. *T. A.*

Ofer yw llu, ef ai i'r llawr,
O bai lonydd y blaenawr. *S. C.*

### Elusen. Eleemosyna : vi. Avaritia. Liberalitas.

A rydd hael yw 'r eiddo 'i hun. *T. A.*

Dyn a ran da yn ei raid ;
Duw a ran da i'r enaid. *G. Gl.*

Na roed neb, cywirdeb call,
Er gŵst aur, ar gost arall.
A fo hael, gafael gyfun,
A hŷ, bid o'i dda ei hun. *G. Ll.*

Ni ŵyr y llawn, o'r holl iaith,
Wich y gwag orwag araith.
Pam nad ystyr ? Byrr yw 'r byd
Goludfawr wrth galedfyd. *S. T.*

### Siampleu. Exempla.

Cyngor periglor eglwys
Ydoedd i ddyn (pand oedd ddwys) :
" Gwna a archwy 'n gynhyrchiol,
Union farn, ac na wna 'n f' ôl."

Ninneu o'n rhwyſg a'n ynni,
Union a wnel a wnawn ni.
Yn ôl anwiredd y naill
Anwiredd a wna eraill. *M. R.*

" Rhyfedd iawn, rhyw fodd ewyn,
Meddaled yw meddwl dyn !
Na wêl dyn engyn angall
Y llûn y ſyrthiodd y llall."

### Llygattyn. FASCINATIO.

ARWYDDION diawl ar ddyn du,
Yw tonnog lygattynnu.
Ni ddaw un tro 'n dda ond drwg,
Ac a welo drwg olwg.

### Glewder. FORTITUDO. VI. AMOR. VECORDIA.

NID yw rhyfel un helynt,
Mal ar gyrph y milwyr gynt.
Nid arfod yn y dyrfa,
I berchi dyn a braich da.
Egwan ddyn â gwain o ddûr,
A dyrr nerth a Dwrn Arthur.
Nid gwaeth corr ffraeth, lle cair ffrawd,
Na Samson os â ymſawd. *Edm. P.* i'r Gwn.

Dewr a gair ei drugaredd. *W. Ll.*

A fo dewr hael ar fyd rhwydd,
Nid i leſg y deil yſgwydd.
Pam mai rhaid, o baid yn ben,
Droi'r gwnn i daro 'r gawnen ? *W. Ll.*

Na wna gynnen â gwannwr,
Heb weddi gwan, heb wedd gŵr.
Lle bu ryw gam llwybr a gaid,
Gwnewch iawn er gwyn i'ch enaid. *T. A.*

Am air chwyrn cymmerwch iawn,
Myn degwch mwy na digawn.
Am weithred drom, o throid dryll,
Gwna weithred, neu 'r gwayw 'n wythddryll.
Pe lladd, er pwyllo heddyw,
Pryſia di pa ryw fyd yw.
Byd twyll heb adnabod dŷn,
Baedd drûd, adnebydd dridyn:
Dy gyſtal, od ai goſtî,
Dy well, dy waeth, deall di.
Na chyffro un uwch ei ffrwyth,
Ac na ddeffro gan ddiffrwyth. *T. A.*
Gwna gadarn gynnig oediaw;
Gwrando wan gwirion, o daw.
Na chlyw, mwy na choel ewyn,
Flas y dwr ar ſalais dyn.
Fe wna gwan, o fewn ei garn,
Ryw hoccedion i'r cadarn. *T. A.*

Eiriach y neb archo nawdd. *T. A.*

Ni bydd gwan heb iddo garn. *T. A.*

Gŵraidd a gyrraidd ei gas. *D Ll.*

Lluddias urddas i ddewrddyn,
Lluddias môr, lle'dd â os myn. *G. Gl.*

## Cynnilwch. Frugalitas.

A bryno tir a braint da,
Yn ei ardal â'n ŵrda.

A wertho tir wrth y tai,
Efo weithian a fethai. *L. G.*
Teyrn i defyrn od â,
Ei draul a gymmedrola. *H. D.*

## Dyn. Homo.

Ni bu yma neb ammarch,
Un wedd yw pawb ond eu parch.
Dir yw i bob aderyn,
Dysgu anrhydeddu dyn?
I ddyn e orwedd annof,
Ac ar ei law e ddaw 'n ddof. *G. Ll.*

Rhyfedd diwedd blodeuyn,
A rhyfedd yw diwedd dyn.
Dyn bob gronyn a grina,
Fal y dyn blodeuyn da. *L. G.*

Tyfu o goed diofer,
Y bu fal pob afal pêr.
O cynhara cyn hiroes,
Ni ddeil yn niwedd ei oes. *T. A.*

Ni phery gloywder seren,
Na'i phryd ond ennyd i wen.
Dail ieuaingc hyd ŵyl Ieuan,
A bery'n glos ar bren glân:
Wedi hynny oed hen-nyth,
Wiwach grinach, bellach byth.
Ar un sud, er nas edwyn,
Y messur Duw amser dyn. *B. Br.*

Jesu, â'i hud yw'r oes hon,
A adeilodd hudolion?

Dail a ddigwydd bob blwyddyn,
Dis a'i dwyll ydyw oes dyn. *L. G.*
Darfu megis ar derfyn
Y dydd, felly derfydd dyn.
Mabolaeth mab a welir,
I barhau ſal bore hir:
Diau i'r mab wedi 'r maeth,
Yn greulawn ddwyn gwrolaeth:
Wedi hynny daw henaint,
Ac yn hen gorwedd gan haint.
Yna noſa dan Jeſu,
Einioes y dyn yn nos du. *G. Gl.*

Tri modd pond da'r ymweddyn,
Hudol, a dis, a hoedl dyn? *T. A.*

Yn eu dadl echdoe 'n d'wedyd,
Ddoe 'n ſyw iach, a heddyw 'n ſud. *L. G.*

Breuola braw i'w elyn,
Dim a'r y ddaiar yw dyn. *Iolo.*

"Breuach na barr o ewyn,
Yn ei ſtâd yw einioes dyn." *L. G.*

Duw biau nodi bywyd,
Duw ba beth a dyb y byd? *T. A.*

Pob cadarn a farn hyd fedd,
A wnai Dduw 'n wan ei ddiwedd. *L. Mor.*

Gan rai wrth ganu yr oedd
Ymryſon am yr oeſoedd:
Un a'i heirch, megis Noe hên,
I oed eryr a derwen;
I'r llew y tebygai 'r llaill,
I geirw y tebyg eraill.

Ni thebygwn hwn i hŷdd,
Nag i adar, neu goedydd.
Difai gennyf ei dyfiad,
Dwyn oed hir a dawn y tâd. *H. C. Ll.*

" Cwyno 'r ydwyf rhag henaint,
Cwyn hir gan ddryghin a haint.
Cwyno anwyd cyn ennyd,
Colles oll y gwres a'r gwrŷd.
Gwden anwydog ydwyf,
Gwedi nerth, gwywa dyn wyf.
Tra fum i mewn tyrfau mawr,
Was ynfyd ifangc ſonfawr,
Ebrwydd ehydrwydd hoywdrum,
A chryf iawn yn chware fûm. *I. Br. H.*

Dieiddil a da oeddwn,
A chryf a gorwyllt a chrwn :
A hefyd eſgyd yſgawn,
I ben yr allt buan 'r awn :
Trin y bêl a phob helynt,
A rhedeg fal gwaneg gwynt.
Heddiw os i'r rhiw yr af,
O arfeddyd hwyr fyddaf. *S. C.*

Lle bo'r gamfa ferra fach,
Llymſi fyddaf yn llamſach.
Ni chredir, nychu 'r ydwyf,
Y rhodia 'i mwy ; rhy drwm wyf.
Un llûn yw hûn a henaint :
Yn ful gan ofal a haint :
Yſceirieu yn yſcyrion
Y ſydd i'm ffydd, yn ddwy ffon :

Yſgwyddeu anoſgeddig,
A chorph heb na lliw na chig.
Gleinieu ſy nghefn a drefnwyd
Yn gerrig craig neu gorc rhwyd.
Rhyfedd yw'r ais a'i rhifo,
Fal cronglwyd lle tynnwyd to *J. Br. hir.*

A'r breichieu fal ffyſtieu ffyn,
A gwayw ſy ym mhob gewyn.
Anaf leſg yn goreſgyn,
A'r blew a'r gwallt yn blu gwyn.
A'r dannedd, O ſalwedd ſon,
Afluniaidd yn felynion.,
A'r olwg ddiwg ddeall,
Truan o ddyn, yn troi 'n ddall. *S. C.*

Gwreinaint, caf waith ymgrafu,
Sy haint gyda 'r henaint du.
Crynedig i'm croen ydwyf,
Cryniad deilen aethnen wyf.
Gwr oerach nag Eryri
A Berwyn wyf i'm barn i.
Ni thyn na chlydwr, na thân,
Na dillad, f'anwyd allan.
Troi a ſefyll tra ſafwy,
Tan grafangeu 'r angeu 'r wy.
Rhoed Duw 'm bwyll, rhaid im bellach
Ryngu bodd yr angeu bach. *J. Br. hir.*

**Ni wyl neb am beth ni wyr.** IGNOTI

NULLA CUPIDO.

NID rhaid i ddyn, tywyn tes,
Wylaw ond am a weles. *L. G.*

### Anwadalwch. Inconstantia.

A arddelwo o'r ddwylwy,
Ni ŵyr a ddaw un o'r ddwy. *J. Deul.*

### Diwydrwydd. Industria.

Trech yw a gais fantais ferr,
Na 'r hwn a geidw o'r hanner. *M. R.*

Trech yw a gais, trwy awch gŵg,
Nag a geidw rhag dirieidwas,
Ei ddyn gwynn ar ael glynn glas.
Nid hawdd cadw cymmen wenn wych
Rhag lleidr yn rhygall edrych. *D. G.*

Trech a geisiodd o'i fodd fis,
Gwag ydoedd, nag a gedwis. *N.*

### Diogi. Inertia.

Nid gŵr ni newid gware,
Nid llong heb fyned o'i lle. *G. Gl.*

### Trais. Traha. Injuriæ. vi. Oppressio.

Byth ni thyf dawn yn iawn wedd,
Bron oer, lle bo'r anwiredd.
A fo 'n gam ni fynn y gwir;
A fo 'n iawn ni fynn anwir. *H. Ars.*

Na chwsg awr â chas gwiriawn,
O gwnai gam, heb gynnig iawn. *T. A.*

A gasgler ar farch malen,
Ni thyf mwy na gwenith hen. *D. Ll.*

**Testun.** IRONIA.

ERIOED ni welais yr un,
Euraid wyſtl, a roi deſtun,
Na cheffid, meddid i mi,
Dyſt iawn orn deſtun arni. *O. G.*

**Cenfigen.** INVIDIA.

GWRDA ni ddeil gair dan ddaint. *T. A.*
Gwan a fâg y genfigen,
Gwannwr byth nis gwna ar ben.
A fo gwan genfigennwr,
Hir yn was a hwyr yn ŵr.
Calon pob gŵr aflonydd
Cneuen y genfigen fydd.
Camp hen genfigen ar fêr,
Cnoi galon cyn y gweler.
Curo 'r ais fel cyrriau 'r ôg,
Cnoi y cylla cnoccellog.
Ac yn grin iawn, gwan ei gred,
Ac a lyſg fal goloſged.
Llenwi bron yn llawn â braw,
Lloſgi fal y geill yſgaw.
Y llu Diawlaid, lle delynt,
A fagen genfigen gynt. *L. G.*
" Gwae ŵr lleſg, medd y gwyr llên,
Gwan a fago genfigen.
Cenfigen flin o'i thrinio,
A lyſg eî pherchen yn lo."

**Ieuengctid.** JUVENTUS ERUDIENDA.

Y winwydden a nyddir
Yn egwan iawn ac yn îr ;

Pan el yn hen gangen gu,
Ni oddef ddim ei nyddu. *B. Aerdd.*

### Gwaredd. Lenitas.

Dyn doeth a ddywaid yn deg,
Un gair a â drwy 'r garreg. *L. G.*

Trwy deg cais tra tyccio hŷn. *T. A.*

Y gair twnn a'r garw nid da;
Gair teccach goreu tyccia. *G. J. Ll. F.*

Yr ŷch gwâr awch a gyrredd,
Prynhawn y pery 'n y wedd;
E flina 'r ych aflonydd
Ar y did cyn hanner dydd.
A fo 'n araf fyw 'n wrol,
Ni thrippia, ni wyra 'n ôl.
A fo chwyrn a'i faich arnaw,
A gaiff drip wrth ryw gŷff draw. *S. T.*

### Haelioni, Elusení. Liberalitas. vi.

Avaritia, Prodigalitas, Eleemosyna.

Y fonwes a fo anhael,
A fwrw rhoi yn fai ar hael. *T. A.*

A roddo hwnt ei ruddaur,
Ef a fydd fwyfwy ei aur. *L. G.*

Ef â afon yn fwyfwy,
Hyd y môr ac nid â mwy. *L. G.*

Gnawd hael o hael wrth heiliaw,
Gnawd i'r ŷd egino draw. *L. G.*

O'r hael y cair hael, a phe rhôn, ai gael,
Gan hael hawdd fydd cael o fodd calon.
Gwerthu da yw gwarth diwad,
A Duw yn rhoi da yn rhad. *W. Ll.*

Da oedd gael un hael yn hên. *G. Gl.*

Duw wrth raid, diwarth, a ro
Da 'n rhwydd i'r dyn a'i rhoddo.
Anodd bod yn hael yna
Oni bydd y deunydd da.

**Y Tafod.** LINGUA COHIBENDA. VI.
LENITAS.

TAFOD fel dyrnod â dwrn,
Trwy rwyſg, a dyrr yr aſgwrn. *S. T.*

**Swyddogion.** MAGISTRATUI PARENDUM.

MAE 'n odid minio nodwydd,
Neu ben ſaeth, yn erbyn ſwydd.
Ni nofia yn un afon
Neb, od â 'n wyneb y donn. *Ior. F.*

Ni fu hawdd nofio heddiw
I un a ffrwd yn ei ffriw. *T. A.*

**Drwg a ddaw am ddrwg.** MALUM.
COMPENSATIO.

DIHAREB yw hon diwirir, ym mro,
A laddo a leddir. *D. G.*

Gwr a wnel drwg i arall,
Wedi llad, arhoed y llall. *L. G.*

Drwg a wnaeth, a drig yn wall
Draw, ac aros drwg arall. *D. Ll. de Ri.* 3.

A wnel argae, gwae, â gwall, o'r deau,
A gaiff dial cuall;
A wnel drwg, o dreigl angall,
A llaw arhoed y llall.
Nid diofal ffyrfdal ffer,
Y gelyn a wnel galar;
A laddo ddyn â'i loyw ddûr
I luddias hoedl, a leddir. *D. G.*

A laddo gwr a chledd gwyn,
Ef a leddir ryw flwyddyn. *N.*

### O'r drygeu goreu 'r lleiaf. Ex malis minimum eligendum.

Bwy ni ŵyr na bai 'n orau,
O lleddid un na lladd dau? *D. Ed.*

O'r holl ddrygau, diau da,
Gŵyr llawer, goreu 'r lleia. *N.*

### Mam. Mater.

Deuair oedd raid eu deall,
Gair mam, gair llysfam yw 'r llall.
Gwall yw sôn, pond gwell synwyr,
Deg nag un, digon a'i gŵyr. *T. A.*

### Celwydd. Mendacium.

Celwydd ni wna ond cilwg,
Nid da heb droed un tyb drwg. *G. I. Ll. F.*

Celwydd â 'n gelwydd golau,
A gwir a fydd gwir nid gau. *N.*

Cyfled mantell mewn celli,
Gwrthwyneb a'i hwyneb hi.
Ac nid cyfled gweled gwir,
Ar ei wyneb â'r anwir. *Ior. F.*

## Angau. MORS.

DIR i'r bobl, dewr yw'r bwbach,
Ryngu bodd yr angau bach. *G. Gl.*

A fago 'r ddaiar aren,
A lwngc hi fal afangc hen. *G. Gl.*

Ni chair mach i ŵr am oes,
Ni bydd un heb ddwy einioes. *T. A.*

O angau ni ddiengir;
Ac nid â heb neb, yn wir. *H. D.*

Ni bu erioed neb o'r iaith,
Neu frenin, heb farw unwaith. *I. R. Ll.*

Pob un a aeth, pawb yn wâr,
Ar ei ddiwedd, i'r ddaiar;
Minneu nid oes i'm annedd
O'r byd, ond fy hyd o'r bedd. *W. Ll.*

Dyn pe cyn gryfed a dau,
Digyngor y dwg angau. *M. R.*

Ni all da 'r byd, ennyd awr,
Ystyn einioes dyn unawr. *W. Ll.*

Dynion ieuaingc a dynnir,
Dyn hen ni edy Duw 'n hir.

Nid hwyrach croen oen unawr
Na'r ddafad i'r farchnad fawr. *Ll. G.*

Ba wr, o bai hir ei oes,
Ba dda, a wna byw ddwyoes?
Ba ryw hael, bûr wehelyth,
Ba rai beilch, a bery byth?
Ba ddyn, o bai dda ei waith,
Ba frenin heb farw unwaith? *Ior. F.*

Hector gadarn o'r farn fau
Ni ddiangodd yn nydd angau.
Hefyd Arthur, ddihafarch
Ond tra fu, ni bu'n ei barch. *G. Gl.*

Eryr gwyllt ar warr gelltydd,
Nid ymgel pan ddêl ei ddydd.
A'r pŷsg, a fo ym mysg môr,
A ddwg angau 'n ddigyngor.
Y bŷd oll, be deallwn,
Ar y sydd, a erys hwn.
Beth a dâl, byth o deliwch,
Dewrder oll, o doi awr drwch?
Ni bydd o wr, o bai dda,
Ond darfod yn y dyrfa:
Ban na ddeil bwa 'n y byd,
Ywen dorgoch, ond ergyd.
Gwalch a haeddai glych heddyw,
Hyd ei derm ei hediad yw.
Os march cryf, os merchyg rhai,
Nid oes arno ond siwrnai.
O dirwyna Duw 'r einioes,
Awr ond un i wr nid oes.

Pand drwg yw, pwynt tragywydd,
Pan na ddeil dim pan ddêl dydd.
Er main gwerthfawr mewn gwrthfyd,
Er o aur bath, a roi 'r byd;
Er da pwys i wrda pûr,
Ni chaid hoedl yn iach Dudur. *T. A.*
Tair merched, tair tynged hon,
Y fy'n dwyn oes ein dynion.
Un a gynnail gogailyn;
Arall a nŷdd dydd pob dyn:
Trydedd yn torri edau,
Er lladd Iarll, a'r llu Ddiw Iau. *A. Gl.*
Dled ar bob dyn, dychryn daith,
A'r aned, yw marw unwaith.
Y gronyn hedyn hoywdeg,
A fwrir yn y tir teg;
Nid egina, da yw'r daith,
Y grawn nes llygru unwaith.
Ac un, llygriad a hadyd,
Yw dynion beilchion y byd.
Ac egino gogoniant,
Ys da nerth, drwy Grift a wnant.
O mynnwch gael heb ffaelio,
Y wledd fawr arlwyodd fo;
Crynwch hwnt i'ch croen i'ch oes,
Crinion yw ceingcieu 'r einioes;
Rhowch eich gofal, bob calon,
Ar Grift fry â'r groefwaed fron.
Yno dowch bob un a dau,
Oll i'r fan lle 'r wyf finnau.
Lle nid oes, na garw-loes gûr,
Na dialedd, na dolur,

Nac erlid, llid, nac oerloes,
Na dig, na galar, nid oes;
Na newyn, chwerwddyn, na chŵyn,
Na syched, na nos achwyn;
Byw 'n y nef, bawb yn ifangc,
Heb dorri oes, a heb drangc. *T. A.*

Duw wyn biau dwyn bywyd. *B. Br.*

Pa ddydd y derfydd pob dyn?
Y dydd a roes Duw iddyn. *W. Ll.*

Os Duw a ddewis y dyn,
E wŷl Duw ei flodeuyn. *T. A.*
Cynnar y gwna 'r ddaiaren,
Cyfalhau ieuangc fal hên.
Unllwybr â gwaith y winllan,
Ydyw 'r llu yn myn'd i'r llan.
Dynion ifaingc dianhy
Yn fore ânt i nef fry;
A rhai yn hanner eu hoes,
Oedd hanner dydd eu heinioes. *G. Gl.*

Da diweddar dedwyddyd. *T. A.*

Newidiais fyd, iawn ydoedd,
Newid wych i'm henaid oedd. *A. A.*

Nid marw ef, nid mor ofyd,
Nid byw, ond newidio byd.
Duw y sydd dwy oes heddyw;
Un fyth fry, un ferr i fyw. *T. A.*
Gwysir yr enaid gwiwsyth,
Mawr boen, ni bydd e marw byth.
Duw a'i rhoes mewn daiar hen,
A ddeiryd i'r ddaiaren;

Daiar i ddaiar ydd â,
Yr enaid i ŵyr Anna. *L. R. Ll.*

## Y Byd. MUNDUS TRANSIT.

FFYRF yw brig ffurf y bregeth,
Ffei o'r byd na phery beth. *T. A.*

Gwae ro ei fryd, er hyd rhus,
Ar ein byd mawr enbydus.
Doe 'n arglwydd canheidlwydd cêd;
Heddyw dan yr anhudded. *Gr. Gwef.*

Rhidyll hudolaidd rhydwn
O fyd, ar ei hyd, yw hwn;
Y maccwy llawen heno---
Hyfryd ei fywyd a fo---
Breuddwyd aruthr ebrwyddarw,
A dry y fory yn farw. *D. G.*

Na rodded un cun ceinſyth,
Fryd ar y byd, fradwr byth.
Eſtron was, os dyry 'n wir,
Fud ellwng, ef a dwyllir.
Hud yw golud a gelyn,
Brwydr dôſt yw, a bradwr dŷn.
Weithiau y daw draw draha;
Ac weithiau yn ddiau dda.
Mal trai ar ymylau traeth,
Gwedi llanw gwŷd a lluniaeth.
Chwerddid mwyalch ddichwerwddoeth,
Ynghelli lâs cathlblas coeth;
Nid erddir marlbridd iddi,
Nid yrraidd hâd, nid ardd hi;

Ac nid oes edn fergoes fach,
A'i thruth oll, ei thrythyllach. *D. G.*

Gwae 'r neb, er cwbl o'i febyd,
Byth a 'mddirietto i'r byd.
Gwae a gollo nawbro Ner,
Duw nef, er donieu ofer. *Iolo.*

## Enw da. NOMEN BONUM.

GAIR a dynn gariad i wr. *N.*

Y dyn a gaffo enw da,
A gaiff gan bawb ei goffa. *L. G.*

Dyn arall mynn dwyn arian,
Dwyn ei glod a fynn dyn glân. *Iolo.*

" Y Gŵr a haeddo gariad,
Yn ei flaen a nofia 'r wlad ;
Dyn taerwyllt annaturîol,
Drwg ei naws, a drig yn ôl." *O. G.*

## Hardd pob Newydd. NOVA PULCHRA.

Y mae 'n ddihareb i'm oes,
Hardd fydd pob newydd nawoes. *S. T.*

## Swydd. OFFICIA.

NI phery swydd ond blwyddyn. *Ior. F.*

Offis bob drimis a dry ;
Na chais un achos hynny. *L. M.*

## Gweithred a ddengys. Opus virum indicat.

Y mud cu, ammod cywir,
Os gwell, a ddengys y gwir.
Gweithred un heb goethair da,
Yn goeg iawn a'i gogana. *W. Ll.*

## Golud. Opes.

Bonedd heddyw ni wedda;
Bawaidd yw dyn ni bydd da. *Ior. F.*

Er ammeu o rai ymma,
Er hyn Duw ſy 'n rhannu da. *T. A.*

O erw i gant yr â gŵr;
O ddwy 'i un ydd â anwr. *I. Deul.*

Nid ery, blaned araul,
Y rhew yn wyneb yr haul. *O. G.*

Ni ddaw eiry 'n nydd araul,
Yn y rhiw tywynno 'r haul. *D. N.*

Erioed ni thrigodd yr ia,
Ar ffynnon, fis Gorphenna. *D. N.*

O gwŷl di ddyn gael dy dda,
A chymmer, tra ſŷch ymma.
Na fydd gybydd, celfydd call,
I ddwyn aur i ddyn arall.
Cymmer drwy fwynder dra ſŷch;
Dod ran o'r da a drinych.
Y da ddêl yn dy ddwylaw,
Gwell it roi, na'i golli draw. *S. T.*

Gŵr ni ŵyr gronni arian,
Onid y rhent â'n dair rhan:
Un i'w lŷs a'i win o'i law,
Wrth yr aelwyd i'w threuliaw;
Yr ail i weiniaid a rydd;
At yr adail mae 'r trydydd. *G. G.*

Da byw eu dwyn, Duw biau;
Duw biau rhoi da 'i barhau. *S. T.*

Yr aur ei adael fy raid
Yn dwrr i ryw ddyn diriaid. *S. T.*

Murnio da, marw 'n y diwedd;
A da 'r byd nid â i'r bedd. *D. Ll.*

Crŷs gwyn a'i dilyn i'w dy,
A gwialen yn gywely,
Ar elawr, heb fawr wylaw,
Ac i'r llan yma ger llaw. *S. T.*

Nis canlyn o'i dda, o'i ddiffer, ymro,
Onid ei amdo, amdlawd biner. *Gr. Yn.*

A da 'r byd i gyd a gedwir, dros bryd,
A da 'r byd i gyd yma y gedir. *W. Ll.*

## Trais. Oppressio pauperum. VI. Injuria et origo.

A fo traws fe 'i try Jesu. *S. T.*

Nid rhyw iddo ladd truan;
Nid clod ceisio gorfod gwan. *L. G.*

A dreisio gwan draw is gil,
E drippia Mab Duw 'r eppil.

A fo 'n enwog fyw 'n uniawn,
Fe rydd Duw fawredd a dawn. *S. T.*

Y cyfiawnder, cof undod,
A yrr gŵr hael i frig rhod ;
Y trawſedd a wnel treiſiwr
A dynn ei dâl dan y dŵr. *W. Ll.*

Cammeu a beiau, lle bo 'n,
A yrr ddinyſtr ar ddynion.
Ef â treiſiwr, fo trawſaidd,
Fal pren onn mewn bron heb wraidd.
Byw 'n gymmwys heb hen gammau
A bair i hil gŵr barhau.
Anllywodraeth a lledrad
A lygra hil gŵr a'i had. *W. Ll.*

Byw ar gam drwy bwer gau
A dŷn dynion dan donnau. *W. Ll.*

Gwell i wr goll ei arian
Na cholli gweddi dyn gwan. *W. Ll.*

### **Urddau.** ORDINES ECCLESIASTICI.

MWY yw 'r henw, mae rhai henoed,
Ar ddyn gwych urddeu nag oed. *T. A.*

Ba raid gradd hyd neuadd nonn
Burach nag y bu Aaron. *S. Ph.*

### **Bonedd.** ORIGO BONA. VI. INJURIÆ. LIBERALITAS.

BLODEU cyn afaleu fydd. *H. D.*

A dyfo o bendefig,
A dyf o'i wraidd hyd ei frig. *D. N.*

Gnawd o'i ryw gnwd ar ei ol,
Gwres yn hir, gwr synhwyrol. *T. A.*

Byw 'n dduwiol, lle bo 'n ddiau,
A bair i hil gŵr barhau. *W. Ll.*

Derwen teg y cadeiria,
A gaffo 'i dwyn o gyff da. *H. C. Ll.*

Y pren fyth pur yn ei fon
A bair afaleu 'n berion.
A'r gwr da â'r gair duwiol
A eura 'i imp ar ei ôl. *W. Ll.*

Y tir da heb natur du
Wna i wenith ennynnu.
Gŵr di fai o grud i fedd
A yrr twf ar ei 'tifedd.
Coed dolydd, fo 'n cyd deiliaw,
A ffynna 'mhlith gwlith a gwlaw.
Yr hydd a gynnydd ei gyrn
A gwaed da a fâg teyrn.
Bonedd, mal etifedd maeth.
A fâg y bendefigaeth. *D. N.*

Ysbys y dengys y dyn
O ba radd y bo 'i wreiddyn.
Y ffrwyth achos ffrith uchel,
Da ceidw dâst y coed y dêl. *T. A.*

Damwain cael mab diymwad
A wnel dim yn ol ei dad. *L. G.*

Odid gwr, oeded gariad,
O fil a dynn fal ei dad. *D. H. H.*

## Petheu bychain. PARVA.

Ni bu fawr, Duw gwawr a'i gwŷl :
Paham ? Cynfam y cynfŷl. *R. G. Er.*

Y lleuad pan fo lieiaf,
Ai llai y rhed na lloer haf ? *Ior. F.*

## Nid Ty heb wr. PATERFAMILIAS.

GWAEL fydd y bwrdd a'r gwely
A bort tal heb wr y ty. *H. C.*

## Dioddef. PATIENTIA.

ER godde 'r awr y gweddai,
Ar oddef fyth yr oedd fai. *T. A.*

Da dioddef diwad addas,
Dyna wedd daioni i was. *S. R.*

## Gwlad. PATRIA.

DIHAREB a oedd derwyn
A ddywaid wrth Dduw a dyn ;
Cabla 'th fro dda, i'm gwydd i,
A'th randir, a thro yndi. *L. G.*

Lle maccer yr aderyn,
Yno trig ; natur yw hyn. *D. J. D.*

Tra glwys yw natur gleisiad,
Garu 'r dwr goror ei dad.
Y llwyn y mager y llew,
Ei dilyd hyd ei olew. *W. Ll.*

Chwannog mab pan gychwyno,
Adwyth a fydd i'w daith fo;
A dau chwanoccach o'i daith,
I Faelor adref eilwaith. *R. G. Gl.*

Po bellaf gwaethaf yw 'r gwerth. *G. Gl.*

## Pechod. Peccatum, vitium.

Odid cael yn ddiadwyth
Na dyn na phren yn dwyn ffrwyth. *G. Ll.*

Llawn beiau oll yw 'n bywyd;
Llawn bai yw pob lle 'n y byd. *S. T.*

Ceisied cedyrn feddgyrn faeth,
A gweiniaid feddyginiaeth.
Ni bu, ac ni ddychon bod,
Neb iach heb arno bechod. *H. D.*

Nid baich onid o bechod. *Iolo.*

Nid baich, ond baich o bechod;
Yn y farn, gwae ddyn o'i fod. *D. M. T.*

Araf yr air i orallt
A baich yngwrthwyneb allt. *D. N.*

Y dyn yn fy llygad i
A wŷl oenyn yleni;
Ac ni wŷl, y gwann eilun,
Hwrdd yn ei lygad ei hun.
Ni ŵyr y llaw lawn o ŵyn
Ba wich llaw wag heb achwyn. *G. Gl.*

Pell y gwŷl engyl angall
Eirchiad yn llygad y llall. *L. Gut.*

Dyfod, cyd bych diofal,
A wna dy dwyll yn dy dâl. *R. Ddu.*

Ni ddwg mab arab aren
Baich y tad o bechod hen.
Ni liwir, yngoleuad,
I neb odineb ei dad. *Iolo.*

Tridyn nid ânt ar redeg
I fynydd Duw, fan oedd deg;
Y celwyddog, ſerthgrog ſwydd,
A gai olud o gelwydd;
Y gŵr a ddirmygo gwan;
A gŵr a logo arian. *S. T.*

Y march a wŷl o'i warchae
Y ceirch, ac ni wỳl y cae. *D. G.*

Edrych pan welych y nos,
A chae 'r annedd ddechreunos;
N' âd un drws, a nodwn draw,
Heb ar unwaith ei breniaw.
Dros bryd na âd drws heb bren,
Dros brenio'r drws a brwynen.
Ail meddwl, am a wyddost,
Na thynner piler o'r post.
Na ddos di, achos dichell
I dafarn gau, dewfurn gell;
Ef a 'th dwyllir feinir fau,
Od ai i furn o dafarnau.
I dai drwg onid ai draw,
Odid allael di dwyllaw. *G. J. Ll. F.*

### Gorhaeledd. PRODIGALITAS.

NID gwell rhy hael, di fael fydd
Yn rhoi gwbl, na rhy gybydd. *D. Ed.*

### Tegwch. PULCHRUM.

O fair llawer teg a fydd
O ddyn yn ddrwg ei ddeunydd.
Hoff gan bob edn aflednais
Ym medw gled lwyfed ei lais. *C. Gr.*

### Pwylledd. PRUDENTIA.

GWELL pwyll, y mae 'n gall y pen,
Nag aur bennaig o Urien. *L. G.*

### Mynd i Adwedd. RECIDIVA.

NA thrown â'r aradr adref;
A dro 'n ol, nid â i'r nef. *S. T.*

### Pob peth yn ei gylch. RERUM VICISSITUDO.

POB cadarn pawb a'i codai,
Ac yn yr awr gwan yr ai.
Codi rhai y caid y rhod,
A'u gostwng o frig ystod. *Edm. P.*

Ni bu ddryghin heb hinon,
Na thrai blaen llai heb lanw llon. *I. H. G.*

Mae llun y rhod i'm llaw 'n rhol
A drych wyneb drwy chanol.

Gwyliwch y droell amgylch draw;
Gwir pedwar gair heb peidiaw:
Heddwch, pybyrrwch, y byd,
Cyfoeth a fâg ef hefyd:
Cyfoeth balch (caf waith y bêl),
A fo gryf a fàg rhyfel,
Rhyfel a fàg rhyw afar,
Tylodi byth at lid a bàr,
Tylodi, trueni trwch,
A fo coedd a fâg heddwch.
Mae 'r geirieu hyn ym mrig rhod,
Pe caid neb, i'w cydnabod.
Codiad dyn, nis ceidw tani,
A chwymp fydd o'i chwmpas hi.
Heddychu, heddyw uchod,
A wna barhau 'n nhop y rhod. *T. A.*

Ni wnaeth drwg a'i diwygiodd. *N.*

Am ei bridwerth, ni pherthyn
Ymliw a Duw mal à dyn.
Rhaid fydd, lle rho Duw ei fàr,
Dwyn eginyn da 'n gynnar. *T. A.*

### Yr Adgyfodiad. Resurrectio. vi.

Mors.

Yr un cnawd, ddydd brawd, a ddaw
Yn dudded enaid iddaw.
Clyd i'r corph clydwr o caid,
O phrynodd ffawr i'w enaid. *G. Gl.*

## Gair i gall. VERBUM SAPIENTI.

DEUAIR yw un-gair i gall. *Ior. F.*

Llygaid a ddywaid i ddoeth
Synwyr lle nis cais annoeth *G. O.*

Lle doi angall â dengair,
Llunir i gall hanner gair.

## Gorymgais. ALTUM SUPERE.

NA chais â difantais fych
Y rhoddiad nis cyrhaeddych. *G. O.*

Na chyraedd mewn awch arian,
Mae 'n waith rwyfg, mwy na'th ran. *S. T.*

## Gwybod. SCIENTIA.

NID hael, hael ar fedr cael cêd;
Nid call, call wedi colled.
Nid dim, dim diddim od aeth;
Nid byd, byd heb wybodaeth. *W. Ll.*

## Henaint. SENECTUS.

HENAINT o ddeiliaint ddylyn,
A ddaw heb wybod i ddyn. *R. R. G.*

## Ymadrodd. SERMO.

WRTH futt eu haraith a'u fôn,
Yr adwaenir y dynion. *J. B.*

**Gweision.** SERVI.

DIWYDIACH, fal y d'wedynt,
Fydd gwas gwedi faeddu gyat. *O. Ll.*

**Pob cyffelyb ymgais.** SIMILIS SIMILEM SIBI QUÆRIT.

POB modd a luniodd Duw lwyd,
Pob glan i lan a luniwyd. *G. J. Ll. F.*

Ifangc, ifangc a ofyn;
Henaint at henaint y tyn. *S. Ph.*

**Breuddwyd.** SOMNIUM.

BREUDDWYD wir ebrwydd y daw. *L. G.*

**Ynfyd.** STULTO NE RESPONDEAS.

YMLIW nid doeth, mal nôd haint,
A chroesau rhag echrysaint. *Ll. Gut.*

**Balchder.** SUPERBIA.

GODDEF dy is, dewis dâl;
Gwawd di goft, gad dy gyftal. *Gr. D.*

Y balchaf trawfaf trafyth,
Lleia 'i barch ym mhob lle byth. *R. C.*

A fo 'n falch o'i fewn o'i fodd,
A fo ffol, ef a ffaeliodd. *D. Ed.*

**Tyb.** SUSPICIO VI. MENDACIUM.

Os o brudd mae 'm cyhuddaw,
E dŷb drwg a fo drwg draw. *B. Br.*

" Fo wr drwg a'i ſrŷd ar wall,
Ef a daera fod arall."

## Tewi. Taciturnitas.

Da daint rhag tafod, daw dydd,
Ynghilfach ſafn anghelfydd. *Iolo.*

O bai air heb ei warrant,
Goreu dim ei gau ar dant. *I. Deul.*

A dawo a wrandewir;
O dewi gwers y daw gwir.
Nid a ſiarad ſy wrol. *T. A.*

Da yw oedi dywedud,
Da iawn mal y dewin mûd.
O dd'wedyd anddiwydair,
Rhyw ddrwg neu gilwg a gair;
O dewi moddeu diwg,
Odid oedd gael drafael drwg. *L. Gl.*

Meddyliaid ei raid lle 'r êl,
A thewi a wnaeth Hywel.
Ac ar y doeth goreu dim
Meddyliaid, meddai Wilim.
Deallwr a dau well-well,
Diſtaw a mul, oes dim well. *H. C. L.*

Blaſus fydd parabl iſel,
A da a doeth wedi dêl. *L. G.*

Y llynn dyfnaf o'r afon,
Iſaf fis hâf yw ei ſôn.
Y doeth ni ddywaid a ŵyr;
Nid o ſôn y daw ſynwyr.

A fo doeth efe a dau;
Annoeth ni reol enau. *G. J. H.*

Mab ni châr gormodd siarad,
Mûl yw a doeth mal ei dâd.
O'r meibion, gwyr doethion gynt
Y mûlaf a ganmolynt.
Ni ddichon mewn heddychau,
Na bo doeth y neb a dau.
Os pwyll cannwyll rhag cynnen,
Goreu cannwyll yw pwyll pen. *H. C. Ll.*

## Llygredd y Byd. Temporum Injuria, et morum Corruptio.

Wrth ddau beth yr aeth y byd,
Wrth ofn ac ar werth hefyd.
"Oerder yn ein hamser ni,
Yr ia glas yw 'r eglwysi." *S. Br.*

Swyddeu gwlad sy heddyw gloff,
Swyddeu eglwys sydd ogloff.
"Y Pâb sal am yr aberth,
Ammeu 'r gwir y mae er gwerth."
A phob cyfraith effeithiawl,
A llw dŷn aeth yn llaw Diawl.
Ni chair dẃr rhôm a chaer dŷf,
Esieu arian i Siryf.
"Tydi 'r gwan taw di a'r gwir,
Arian da a wrandewir."
Nobl, o bai yn abl o bwys,
A wnai 'r cam yn wir cymmwys.

Y gair geuog ar gywir,
Ac arian a'i gyrr yn wir.
Er daied fo 'r gair diwerth,
Ni bydd gwir heb addaw gwerth.
Y cywir a gaiff hirwg,
A'r lleidr a droir o'r lle drwg.
F' aeth anwir ar faeth ennyd,
F' aeth y gwir ar feth i gyd.
Blaidd ac oen, ble 'dd â gwannwr,
Hwynt hwy ddau aen gynt i ddŵr.
Oen a lâs, yn ol ei wir,
Am i'r oen ammeu 'r anwir. *Ior. F.*
" Adrodd y gwir drwy Dduw gaf
Ar y byd, ni arbedaf.
Ar y gwir mae rhagoriaeth ;
O'm lleddir am wir ba waeth.
Aml iawn y cair llygrair llwyth,
Anudon a wna adwyth.
I faeddu Duw fe ddaw dyn,
Ffres gwedi ffrifio 'i gydyn.
Aml dyngu mal y dengys,
I waed a chig Duw a'i chwŷs.
Pan ofer dynger rhwng dau,
Pa lw heb ei weliau ?
Afrad ar ddillad a ddaeth,
Afraid iawn o fradyniaeth.
Pais gwr happus âg arian,
Pais a lwngc naw pwys o wlan.
Codi rhwff cŷd a rheffyn,
Caftell am dagell y dyn.
Cwrlo gwallt merch, Carl a'i gŵyr,
Colles hon y call fynwyr.

Gwelir o'r cluſt i gilydd,
Gwallt goſſod yn ſargod ſydd.
Balchder y ſy 'n gadwyn gaeth,
A ſwrw ſil i farwolaeth.
Byd ſydd ni adnebydd neb,
Ba ddyn â heb ddau wyneb.
Oeri cariad yw 'r cerydd,
Traſſau yn ymgaſſau ſydd ;
Byw ac aros heb gariad,
A bair twyll y mâb i'r tâd.
Bardd awen bur a ddeall,
Bradwr llwyr yw 'r brawd i'r llall.
Gan ſyd gwenwynllyd, gwae ni,
Ac adwyth yn ymgodi.
Cydgoeliwn gyda 'i gilydd,
Cydwybod ddarfod ei ddydd.
Caewyd ar wirion cywir,
Cadarn a ſyn darn o'i dir.
Y trahuſaf o'r trawſion
Oreu ſydd yn yr oes hon.
Ar wr mawr, bob awr o bydd
A'i law 'n cael, ni lûn c'wilydd.
O chaiff fo, dan bolio byd,
Ei dy 'n wych, dyna iechyd.
A gadu heb helpu hon,
Eglwys Duw 'n gleſieu duon.
A'r ſonwent oreu ſynnoch,
Anferth y mae 'n ſuarth môch.
Rhai 'n eu ffwrr o'n hoffeiriaid,
Rhawn gynt am y rhai 'n a gaid.
Un Duw 'n Tad, a'n da, a'n tir,
A'r bwydydd ni arbedir.

A bychan lle hir bechwyd,
Ac i un bol ugain bwyd.
Ac ni chlywir, gwir yw 'r gân,
Un a'i gylla 'n wag allan.
Du oer o beth ydyw 'r bŷd,
Yn flinder, yn aflendyd.
Balchder a browyſter brâd,
Balch-chwydd, anlladrwydd, lledrad.
Codes, nid cynnes cenol,
Cenfigen; gwae pherchen ffôl.
Chwimllyd yw 'r byd ar ei ben,
Chwerw a sûr a chrâs aren.
Arfer o drawſder ſy drwch;
Wedi trawſder daw triſtwch.
Nid oes le ffo, pan fo 'r farn,
I'r hoccedwr a'r cadarn.
Y ſy ddrwg a'i ſwydd a'r waith,
Ofned uffern fan diffaith.
Braw ydyw obry redeg;
Fry od awn, mae 'n fro deg.
Duw o gôf aeth, dig yw fo;
Duw a'i nerth rhaid i'n wrtho.
Ymogelwn ei gilwg;
Ymrown i droi; mawr yw 'n drwg.

*Ieuan tew o Gydweli.*

### Tyſtydd Calon. TRISTITIAM CORDIS VULTUS NON CELAT.

Y claf fai 'n celu ofid,
Ef ai ei rûdd heb fawr wrid. *B. Br.*

Ni chel, mi mynych wiliais,
Fy ngrudd a fo yngwraidd f' ais. *T. A.*

Y grudd y ſy 'n cyhuddaw
Y galon driſt o'r glyn draw. *J. Dyſi.*

Yſtyddiau bum gyſtyddiwr,
Ni chel y grudd gyſtudd gŵr.
Ni allai 'r grudd, fy lloer gron,
Gelu cyſtudd y galon. *H. D.*

## Triſtwch. TRISTITIA GRAVIS EST.

EITHR calon oer nid oer dim.

Och o'r hwyl fal awch rhewloer,
Och, ni bu och, na bai oer. *Gr. Gweſ.*

## Llyfrder. VECORDIA.

Y llyfraf gwaccaf ar gil,
Ei frig a friw a'i wegil.
A'r dewraf oll i gadw 'r iawn,
Yn ei wyneb yn uniawn. *L. G.*

## Cleddyf Gair Duw. VERBUM DEI GLADIUS.

DRWG y gall, draig yw y gŵr,
Dyrnau moelion drin milwr.
Gloywddwys bryd gledd yſprydawl,
Gair Duw yw 'r arf a darf diawl. *S. T.*

**Gwirionedd.** VERITAS. VI. MENDACIUM.

GOREU ar bob hardd geirwir
O wr, wrth gerdd, draethu 'r gwir.
Ni yrrir y gwir o'i garn;
Nid â'n us dan ei waſſarn. *L. M.*

Angheuol ac anghywir,
A chnaf wyf o chanaf wir. *Ior. F.*

Ni âd y gwin oedi gwir. *R. Teg.*

**Na phryn henbeth.** VETUSTA NON EMENDA.

A bryno hen fargen faith,
Obry 'n ôl a brŷn eilwaith. *D. Ed.*

**Lle.** VIR LOCUM ORNAT.

DYN a all mewn deunawlle,
Ar ddwr a llawr, urddo 'r lle;
Ac nid hawdd gan y tyddyn,
A'r ddaiar dew urddo 'r dyn. *I. Deul.*

**Rhinwedd.** VIRTUS.

OFER yw brig fry ar bren
Heb rinwedd, mwy na brwynen.
Cynnyrch twyſen yw ſplennydd;
Ac yn y glaw e gŵyn gwlŷdd.
Eiſieu 'gino, iâs gynnes,
Y gwywant hwy gan y tes. *O. G.*

**Yr un acen.** UNUM SECTARI.

HYDDGI da, hawdd ei gadw ef,
A ddylud yr un ddolef.
Yn y gaingc ni ŵyr y gôg,
Ond un llais edn lluoſog. *H. D.*

DIWEDD.

# CYWYDD O FOLAWD I'R JESU.

BUM yn darllen gryn ennyd,
Bereiddwaith beirdd heirdd o hyd;
Na bu i gael neb o'u gwell
Am roi gwawd ym mro Gadell.
Annel clau, rhai 'n eilio clod,
I frenhinoedd, farn hynod.
Rhai 'n breladeidd weddeidd wiw,
I eglwyſ-wyr aeg lwys-wiw.
Ar hoff wawd cai brophwydi
Arbennig, fawreddig fri.
Rhai 'n gwario, er gŵyro gwŷr,
Rhyw gaingc aur ar gongcwerwyr.
Cai wŷr haelion, ffrwythlon ffrawd,
Gan miloedd eu canmolawd.
Goreu gwyr, i'w gwir ragod,
O gaer a glynn a gai 'r glod.
Dyfalu yn gu heb gel;
Dwyn acheu a dawn uchel.
Ieuan Rhydderch, loywſerch lon,
Lawn araith o Lynn Aeron;
Ab Ieuan Llwyd, baun y llu,
A aſſiei i fam Jeſu;
Gerdd brydferth yn ddiſerthwch
Ir, mal cwyr a mel o'r cwch.

Mae 'r bryd mau, diau o daw,
Manolwawd i'm mewn eiliaw.
I brydferthaf croyw-Naf cred,
Roi fy mawl er fy muled.
Jeſu yw nghof, wir Ddofydd ;
Jeſu fu, a Jeſu fydd.
Eur-Bor nefol, freiniol fraint,
Wych o'r llys uwch yr hollſaint.
Addwyn Frenin i'w addef,
Ynglynn aur angylion nef.
Brenin cred, Ri diledryw,
Brenin i bob brenin byw.
Yn d'wyſogawl di ſegur
Uwch law pawb, y iach-Lew pûr.
Offeiriad mewn graddiad gron,
Burach nag y bu Aron.
Ein Pôr hy, a hwy 'n parhau
Nag Aron yn ei gaerau.
Prophwyd yw ef, nef i ni,
Pur loyw-lain, pair oleuni.
Murain cynnyrch llewyrch llên,
Mewn mwyſ-air mwy na Moeſen.
Yn Dyſt cywir, geirwir, gwâr,
A Dewin holl lu daear.
Uwch pob rhai rhyglyddai glod ;
Y mae 'n erfai, myn orfod
A rhagorieith berffeith bur,
O ran nerth, ar un Arthur.
Sigodd ſiol Diafol dig,
Fall uffernol, fwll ffyrnig;
Er iddo yrru Adda
I fywyd drwg o fyd da ;

Ac Efa yn y goſid,
A bar llawn, i beri llid;
A'u holl lin (ond blin fu 'r bla?)
I gaethfyd ar un gwthfa.
Lleſg oeddym ein llaſgwyddiad,
Yma heb rym y Mab rhad;
Trwy rinwedd ei groywedd grog
Gorddofodd y gwrdd ddyfiog.
Wrth farw ar hon, galon glau,
Lluddiodd ing, lladdodd angau.
A'i gyfodiad, gwiw fadwedd,
Uchaf Ior o rych ei fedd,
A wiria 'n glau, er iawn glod
Dduw erfai, iddo orfod.
Ifor hael a fawrhawyd
Am haeledd o'i fedd a'i fwyd:
Haelder Ior, a glodforwn,
Oedd achos per haelder hwn.
Hael yw Jeſu, Haul oeſoedd;
Hylan yw, a hael iawn oedd.
Haelionus am rymus rodd;
Hyburddewr am ebrwyddrodd.
Hael, hael, hael, tros fyd ydyw;
Hael, da ei rodd, haelder yw.
Ys da Duw Tad, Ceidwad cu,
Di os mai da yw Jeſu.
Pen Tëyrn y tëyrnedd
A gad o'n rhyw i gadw 'r hedd.
Pen eſcobion, ddyfnion ddyſg,
Pur gywirddawn, Por gwirddyſg;
Pen Prophwyd mawr, roddfawr Ri;
Praff Awdwr y prophwydi.

Pen ar gedyrn trachwyrn trin ;
Paun gwrol, Pen eu gwerin.
Goruwch haelion, gŵyr chwalu
Ei rad llawn i reidieu llu.
Ei wehelyth ſyth y ſydd,
Eureidd dwf, o wraidd Dafydd,
Ac Abraham ddinam dda,
Wr addwyn o ryw Adda.
Ei gorph, Jon gorhoff per,
A'i lan enaid, oleu-Ner,
Ynt, trwy weddus ferthus fawl,
Oreu dawn, o ryw dynawl.
Am ei berſon cyfionfad,
Mab yw i Dduw byw heb wad.
Pe gallwn, mad Geidwad cu,
Iddo fawl a ei ddyfalu,
Yn ufyddaf a'm tafawd,
I'r Jeſu yr affiwn wawd.
Gan nas gallaf, buraf Bôr,
Glymmu irwawd glaim eur-Jor ;
Gorthewi a wna fi fel
Gwir adyn, a goradel
Mawl yr Jon, mal yr oedd,
I bregethwyr, brig ieithoedd.
Jeſu 'n gwynfyd da ydyw ;
Jeſu 'n rhan ſy un o'n rhyw.

*Jaco ab Dewi*, 1710.

## Cywydd ar ddioddefiadau Criſt.

ERglyw fy nghân, O Arglwydd,
A phoed lân a chaffed lwydd.

Hoffwn, dymunwn bob dydd
Ganu 'n iawn it gân newydd.
A hon am dy dirion hedd,
Drwy gariad a'th drugaredd,
A'th ddaioni i' th ddinas,
A'th rodd, rwydd fodd, a'th rydd râs.
C'ruaidd iawn fe 'n carodd Iôn,
Lin wael pan o'em elynion;
A rhoddi droſſom ni draw,
Y bywyd gwyn heb beidiaw.
Colli, er mwyn ein gwella,
Ei briod waed mewn pryd da;
Amrith fodd amryw weithiau,
Glan wych rodd, er ein glanhau.
    Brodyr byddwn ni barod,
    'Odde gloes dros Dduw a'i glod.
Poen a ddygodd pan aned,
O draul aeth ei waed ar led.
    Ail enir ni 'n olynol,
    Bob rhai 'n lân, bawb ar ei ol.
E waedodd pan enwaedwyd,
I'n rhyddhau ni o'n rhwyd.
    Ninneu, calonneu celyd,
    Gwnawn yn bur, mae 'n llawn o bryd.
Pan chwyſſodd gwaedodd gawad,
O fraw 'n yr ardd cyn ei frâd.
    Chwyſſwn ninneu 'n hafiechyd,
    A'n gwŷn ddrwg yn ddagreu ' gyd.
E gurwyd, cernodiwyd Criſt,
Yn orthrwm, yn rhy athriſt.
    Yſtyriwn ninneu 'n waſtad,
    Roddi dwrn i'r Adda dad.

C'ronwyd, drain-bigwyd ei ben,
A chroes-d'rawyd a chorſen.
    Trwy fyd nag ofnwn tra fo 'm,
    Y dryſſwch fe aeth droſſom.
Chwippiwyd, ammharchwyd ym mhell;
A'i fin watwor o'i fantell.
    Bwriwn ni, bob rhyw ennyd,
    Yn barch i'n bob ammarch byd.
Egr fu ei boen ar y groes;
Dynion yn dwyn ei einioes.
    Bo ni barod farw beunydd,
    Os rhaid, heb ffael ym mhlaid ffydd.
E gas frath go is ei fron,
A gwelwyd gwaed ei galon.
    Am hyn iddo bob munud
    Canwn fawl, na fyddwn fûd.
Ei gorph 'n ol gorphen ei waith,
A gladdwyd mewn craig eilwaith.
    Bechadur, marwhâ bechod,
    O fodd deg yn ei fedd dôd.
Cyfododd ef, cof ydyw,
O'i fawr fedd o farw i fyw.
    A thithau heb naccau côd,
    Bechadur, o gwſg pechod.
Er ein mwyn yn yr un modd
Y Jeſu gwyn eſgynnodd.
    Eſgynnwn, byddwn yn bod,
    Byth ſych am betheu ſ' uchod.
Eiſteddodd, caiff yn oeſtad
Y braint hyn ger bron y Tâd.
Dadleu mae, diammeu dôn,
Drwy ei ſwydd dros ei ddynion.

Gwarantaf cawn ein gwrando,
Gwnawn ein cwyn er ei fwyn fo ;
Ac fe 'n dug i'w deg fynydd,
Bawb, od awn i'w ôl, bob dydd.
Yn awr, ddyn, pwy na roddai
Ddwbl glod byth i Dduw heb lai.
Rho bardwn er ei aberth ;
A gwel, Dduw, it' gael ein gwerth.
Er ei haelder rho eilwaith
Deg rad i'n redeg y daith.
Duw ein Pen (fu 'n dwyn penyd),
Derbyn ni, wrth fyn'd o'r byd,
I'th nef, Arglwydd dragwyddol ;
Amen, f' Ion, Amen yn f' ôl. *D. L.*

# ENGLYNNION.

## I'r rhai chwannog i gablu.

BLE bo bai 'n ſyrthio na ymſertha
O ddamwain nis galla'; [ddim,
Angall ni ŵyr deall da,
A fo gall ef a'i gwellâ.

Yr annoeth goegwr na thawo, cablwr,
A'r cwbl o'r rhyw honno,
Welan y bai le ni bo,
A'r lle bydd f' â'r ieirll heibio.

Y fron weddol na farno, nes deall,
Sydd gall yn fy moddio;
A farn air heb fai arno,
Ffolaidd, anfwynaidd yw fo. *D. L.*

## Wrth ymweled a Chlaf.

Duw Iôn, Duw dirion, Duw dorro dy boen,
Duw beunydd a' th helpio,
A Duw gwyn uwch bryn a bro,
A 'th glafychai, 'th ddiglwyfo.

Jeſu â'i allu yn holliach, a' th wnel;
Mi' th welaf yn afiach;

Jeſu gwyn a oes gwannach ?
Jeſu wnel ei wâs yn iach.

## Wrth fyned i gyſgu a chodi.

Cofia 'r Iôn cyfion, Dduw cu, o'th fonwes,
Wrth fyned i gyſgu,
A Duw fydd, ben llywydd llu,
I' th willio 'r nos i' th wely.

Cofia Griſt ddidriſt Dduw tri, y bore,
Yn barod wrth godi,
Dod ddiolch, dywaid weddi,
Ni ddaw drwg yn d' olwg di.

## Englynnion am feddwi, &c.

Llywodraeth 'ſywaeth y ſydd, yn pallu
Nid pwyllog yw 'n crefydd ;
O Jeſu deg, nos a dydd,
Yfed mae pawb yn ufydd !

Meddwi a llenwi tri lloneid rhyw fol,
Rhyfela fal diawleid ;
Cryf a gwan cyfan y ceid,
O'r iawn yn lladd yr enaid.

Rhai 'n cyrchu chwdu, rhai 'n chwith eu
A'u golwg yn lledfrith, [gweled,
Rhai 'n gwario, a rhai 'n gyrrith,
A rhai yn meddwi 'm mhob rhith.

Pwylla a gwilia galyn, oer fariaeth,
Ddrwg arfereu meddwyn;

Meddwi a llenwi pob llynn,
Yfed nes methu 'i ofyn. *Huw Rob.*

Gwell arfer tymmer y taid, o'i dylwyth
Na dilyn rhai ffoliaid,
Gwell peidio brwyſgo heb raid,
Gwall i un goll ei enaid.

Colli braint y ſaint ydd ys, heb iechyd,
O achos glothineb,
Colli 'r enw a'r callineb,
Colli nef nid call i neb.

Rwy 'n bario c'rowſo, cur yſſig i'r pen,
A'r poeneu ſy ffyrnig,
Da iawn i ddyn a di ddig
Ei chodi bob ychydig.

Llwyr drais ni cherais i'ch hyn, a chrowſo
A chroeſi 'r ffiol rhyngthyn',
Llenwch ac yfwch y llyn,
Bawb ei ran bob y ronyn.

Yfed yn galed heb gywilydd bîr.
Bore a diwedd-ddydd;
Nid oes pen nac ymmhenydd,
Meddaf fi, nad meddw y fydd.

Anifail o gail a gaid yn dofi,
Ond yfed ei gyfraid;
A dyn ffôl, o Duw ni phaid,
Myn lanw mwy na 'i lonaid.

Bob dydd oll y bydd lle bo tafarn,
Etifedd a fetho;

Y pen ofer pan yfo,
Swrth yw 'r grefft, a ſyrth i'r gro.

Nid teg it' redeg at rwyd y tafarn
Etifedd drwg ydwyd ;
O waith deillion i'th dwyllwyd ;
Dall boeth ddyn, deall beth wyd.

## Am yfed Iechyd.

YFED---DWYS yfed---y ſydd, a'r uchaf
Yr iechyd bygilydd ;
Yno calyn y c'wilydd ;
O'r iechyd afiechyd ſydd.

## I'r Cybydd.

OND greſſyn i'r dyn anudonol, gwrs,
Gwerthu gorſedd nefol
Crist, a ei deyrnas raſſol,
Am un acr dir mewn cwr dôl ?

Cybydd caſglu bydd dda byd i'w gadw,
Ac etto mewn drygſyd,
Ac arall mewn ſeguryd
A'i fâr a'i gwaſgar i gyd.

Er cael ſtâd y wlad lydan a'i chyfoeth,
Ni chafodd mo 'i amcan ;
Yſtydio bydd, ni rydd ran,
Myfyrio am ſwy arian.

Os bydd aml awydd i 'mlowio â'r byd,
Er ei boen yn gweithio,
Pa ſwya 'n graff a gaffo,
Mwyaf ſydd ei awydd o

Ffydd faith, na gobaith, gan gybydd nid oes,
Ond yſſu mewn awydd,
Heb wybod, nôd annedwydd,
Pwy o'r boen a biau'r budd.

Er bod, dull hynod, yn llawnion ei dai,
A'i diroedd yn ffrwythlon,
Ni wŷl gael ſyth, dichwyth dôn,
Yma ddegwm ei ddigon.

Cau 'r porth, Duw 'n cymmortho, a wna [cybydd
Ar y cwbl ſydd eiddo;
E ddaw 'r angeu, dan ddringo,
I'w dy 'n ſain at ei en ſo.

## Yn erbyn Balchder.

Oes urddas, na phlas, na phleſer, na choſt,
Na cheſtyll, na gwychder,
Na dim a wnaeth ein Duw Ner
Dan nefoedd, nad â'n ofer.

## Dwyſol.

Moliant, gogoniant, gwiw gynnydd, i Dduw
Am ei ddonieu 'n ufydd;
Efe roes, efo a rydd,
Yn ddi boen i'n dda beunydd.

Dan Dduw, goreu-Dduw, y gorweddaf [lawr;
Dan ei law y cyſgaf;
A than dy nerth, un Duw Naf
Y Ceidwad mawr, y codaf.

# DIRIFEU.

——o——

*Ychydig Ddirifeu ar amryw deſtunieu (can's felly y gelwir hwynt o'r arddodiad* di *a* rhif, *am nad ys yn edrych at gyhydedd y fraich wrth eu canu; ac nid Durieu, neu Dyrieu, fel y tebygai rhai) er mwyn y rhai ſy 'n caru ſynwyr yn fwy na chynghanedd; gan na thal cynghanedd heb ſynwyr ddim.*

——o——

Y MAE 'n haws adnabod dynion
Wrth eu chwanteu a'u hamcanion,
Na'u hadnabod yn ddiammeu
Wrth weithredoedd ac wrth eirieu.

Nid yw 'r gwaethaf yn gweithredu
Llawer drwg y mae 'n ei chwantu
Llawer gwaith, rhag digwydd iddo
Gael ei goſpi a'i g'wilyddio.

Ac nid yw y goreu o ddynion
Mor ddaionus ac y mynnon',
O eiſieu nerth a rhinwedd amlwg,
Ac waith bod eu hanian cynddrwg.

Goreu doethder yw difrifwch,
Goreu phyſyg yw ſobreiddwch;
Ac o'r golud a'r meddianneu,
Cydwybod dda yw 'r tryſor goreu.

Rhad a rhinwedd addyſc hyfryd
Ydyw enaid dyn a'i ſywyd;
Heb y rhai 'n nid byw o hono,
Er bod chwyth ac anadl yntho.

Nid oes undyn byw a'i drigiad,
Ar y ddaiar is law 'r lleuad,
Dinewidiad na difrycheu
Yn waſtadol, mwy na hitheu.

Nid oes un yn berffeith hollol
Yn yr amſer ſydd breſennol;
Nid oes am hyn ond byw mewn gobeith
Hyd oni ddêl yr amſer perffeith.

Mae gennyf achos fil o ddyddieu
I alaru am fy meieu;
Ond ni feddaf galon barod
I alaru un diwrnod.

Mawr yw 'r dadleu yn y gwledydd
Ynghylch corph a chadach crefydd;
Ond am enaid crefydd ddiddan,
Nid oes nemawr o ymddiddan.

Os gweli ddyn yn lled orphwyllo,
Na chytgam byth âg ef ymeirio;
E daw a ſon ond dweyd ei gyfran;
Ni 'mdeurodd un erioed ei hunan.

Mwy Criftnogeidd a rhinweddol,
Ar ol fyrhad neu gam aruthrol,
(Duw a ŵyr) ei lwyr anghofio,
Na cheifio talu 'r pwyth am dano.

Y neb ni fedro fwynion eirieu,
A lledguddio 'i ddigter weithieu,
Fe fydd hwn, wrth lywodraethu,
Ben ynghâd mewn gwlad a theulu.

Os digwydda it' orthrymder,
Cam ac ammharch, ammhorth, prudd-der,
Cofia hyn, a chymmer gyffur,
Mai gwell goddef cam na'i wneuthur.

Mi ddarllenais ddwad yn rhywfodd
I'r byd hwn wyth ran ymadrodd,
Ac i'r gwragedd, mawr lles iddyn'.
Fyn'd a faith o'r wyth-ran rhyngthvn'.

Gwell gan adyn llwyr-falch, lledffol,
Fod yn dincerdd yn waftodol,
Na dyfgu bod yn bencerdd hynod
Gan un a fyddo gwell ei wybod.

Ynfyd wr a ry-ddigofo
Pan y rhoddir achos iddo;
Ynfyttach yw i wr ddigofi
Heb ddim achos yn ei beri.

F' aeth rhai tadeu i Gehenna
Am gafglu cyfoeth a cham elwa;
A'u plant eilwaith fy 'n myn'd yno,
Am eu gwafgar a'u cam dreulio.

Edifeirwch at Dduw gwirgu,
A ffydd tuag at ein Harglwydd Jesu,
Caru pob dyn fel ei hunan;
Dyna 'r tri pheth rheidiaf allan.

Mae llawer gŵr, Duw a'i cymmortho,
A mawr eisieu cyfoeth arno;
A llawer cyfoeth gan ryw adyn,
Ac eisieu gŵr yn berchen arnyn'.

Er fod Rhufain fawr yleni
Yn cadw 'r enw hen oedd arni;
E gollodd hon, mae hynny 'n resyn,
Ei hen ffydd ys llawer blwyddyn.

Mae rhai 'n myn'd i golledig'eth
Am nad ynt yn credu un-peth;
Eraill ynt yn golledigion
O waith credu mwy na digon.

Eisieu mawr ar wlad y Cymro
Yw cyfarch Duw a diolch iddo;
A mwy undeb yn ei chaerydd
Rhwng athrawon ynghylch crefydd.

Nid wrth lathen y mae itti
Fesur o flaen Duw dy weddi;
Ond wrth bwys mae i ti 'n wastod
Ddwad a hon o flaen y Drindod.

Oedi troi at Dduw yn fuan,
A phechu dros un orig fechan,
All ddwyn tristwch i'r fath adyn,
Na ddarfyddo lawer blwyddyn.

Mae rhai mor gelyd a chybyddol
Mal pettaent i fyw 'n drag'wyddol;
A rhai eraill mor afradlon,
A phe baent i feirw 'r awron.

Ni all tremiad y planedeu
Ddrwg i'r dyn fydd a'i feddylieu
Yn tueddu yn waftadol
At weithredoedd da rhinweddol.

Lle bo cyfraith Duw 'n weledig
I enaid dyn i ffrwyno 'i ryfyg,
Ni bydd ond awdurod bychan
Ar wŷnieu hwn gan fer na Sattan.

Nid yw brudiwr nês er gwybod
Tynghedfen ddrwg heb allu 'i rhagod;
Nid oes borth rhag hon a'i niwed,
Ond ffoi at Dduw i gael ymwared.

Y dyn y dêl i maes o'i eneu
Betheu budron eu harogleu,
Mae 'n argoel fod ei enaid heinus
Yn ymborthi ar beth afiachus.

O ryfeloedd y byd ymma,
Goreu rhyfel ac ymwria,
Yw rhyfela ac ymorfod
Am y nef yn erbyn pechod.

Tra pheryclaf yw drwg ddynion
Yn amferoedd ac y byddon'
Gyda 'r duwiol, a'u hwynebeu
Oddi allan megis hwynteu.

Fal y bo llywiawdwyr dynion
Yn eu moeſeu a'u harferion,
Felly agos y bydd pob-dyn
Ag a lywodraethir ganthyn'.

O'r yſcoldai a'r athrawon
Sy 'n y byd i ddyſcu dynion,
Goreu yſcol yn yr holl-fyd
I ddyſgu dyn yw yſcol adfyd.

Dan dymeſtloedd a thrueni
Y byd hwn, a'i ddirfawr drychni,
Goreu gwaſgod ac ymgeledd,
Yw bodlonrwydd ac amynedd.

Gofid rhai a'u dirfawr drallod
Yw eu bod yn meddu gormod;
Gofid eraill a'u trallodion
Yw bod ganthynt mwy na digon.

Am ddamweiniau y byd yma,
Doed helaethrwydd, doed cyfyngdra,
Doed gwaethygu 'n lle myn'd well-well,
Nid rhaid aros yntho neb-pell.

Amſer ſydd i dewi am bob-peth,
Ac amſer ſydd i dd'wedyd rhyw-beth;
Ond ni ellir cael un amſer
I dd'weyd pob-peth yn ddibryder.

Bu 'n edifar fil o weithieu
Am lefaru gormod eirieu;
Ond ni bu gymmaint o beryglon
O lefaru llai na digon.

Un o'r goreu o blant Adda
Yw gweinidog ffyddlon, purdda;
Un o'r gwaethaf o blant dynion
Yw gweinidog drwg, anffyddlon.

Nid yw deall, dysg, a donieu,
Heb gydwybod dda 'n ddiammeu,
Ond fel llysieu per sy 'n trwsio
Corph drewedig yn ei amdo.

Ni bydd y farn yn union, union,
Lle bo cariad gwressog ddigon;
Nac ychwaith lle bo direidi
A chenfigen yn rheoli.

Lle bo cariad fe ganmolir
Mwy ond odid nag a ddylir;
A chenfigen a wŷl feion
Lle na byddo dim achosion.

Os bydd un fy nhwyllo unwaith,
Duw faddeuo i hwn ei ddrygwaith;
Ac o'm twylla ddwy o weithieu,
Maddeued Duw am hyn i minneu.

Ei fai ef ei hun yn bennaf
Oedd fy nhwyllo i 'r tro cyntaf;
A'm bai inneu oedd yr eil-dro,
Fod mor ffol a 'mddiried iddo.

Os bydd arnaf eisieu rhyw-beth
A fo rheidiol i'm cynhaliaeth;
Y mae 'r cybydd, er a feddo,
A mawr eisieu pob-peth arno.

Myfi wn, yn hyspys ddigon,
Na bydd arnaf fawr ddiffygion,
Tra 'r ymgadwyf rhag yr arfer
Sy 'n y byd o chwennych llawer.

Rhoed Duw fynno immi yma,
Ped fai 'n llawer llai na ngwala,
Deued ffynniant, deued methu,
Fe fydd gwell nag wyf yn haeddu.

Dyn yn cael ei anrhydeddu,
Heb ddoethineb yn ei feddu,
Sydd fal pren a fai 'n blodeuo
Heb ddim ffrwyth un amser arno.

Bydd barchedig it' dy hunan;
Na wna ddirgel ddim yn un-man;
Ond a fynnit ei fynegi
I'r un mwyaf wyt yn berchi.

Y crocodil, ar ol wylofain,
A ladd y dyn a ddalio 'n gelain;
A llawer dyn, â'i wylo oerllyd,
A huda 'r llall i drangc anhyfryd.

Nag ymddiried, clyw 'th rybyddio,
Estron byth, os gelli beidio;
Ni thwyllwyd neb erioed yn ormodd,
Ond y gwr a ymddiriedodd.

Perchen tafod a arfero
Dd'weyd am bawb y peth a fynno,
Bydd rhaid iddo wrando 'n fynych
Lawer peth ni bo 'n ei chwennych.

A chwannoccaf i gael breintiau
Yw'r yſcafnaf ei ſeddyliau;
Ni ſyn hwnnw lai na blyſio
Gradd nad yw hi 'n addas iddo.

Drwg rhy hael, a drwg rhy gybydd,
Drwg rhy driſt, a rhy lawenydd;
Ffordd ganolig rhwng dau ormod
Yw ffordd rhinwedd glodfawr hynod.

Drwg rhy lwfr, drwg rhy ofnog,
Drwg rhy ddewr, a rhy galonnog;
Nid da *rhy* o ddim yn un-modd,
Meddai doethion yr hen oeſoedd.

Pa wr bynnag a'r a fyddo
A chyngor drwg annuwiol iddo,
Ni erys hwn yn ddiamryfus
Nemawr iawn mewn ffordd ddaionus.

Na fydd farnwr rhwng cyfeillion,
Ond cais ddwad a hwynt yn fodlon,
I gyttuno bob ychydig,
O deg a theg, yn ddiddig, ddiddig.

Odid mawr i undyn weled
A'i ddau lygad, er eu lletted,
Trwy 'r holl fyd beth mor hyderus
Ag yw balchder anwybodus.

Y mae 'n rhaid i'r gŵr a garo
Gael y peth a fo 'n ddymuno,
Yn ddyfal iawn a mynych, mynych,
Wneuthur rhywbeth gyda chwennych.

Dyn â'i dafod a weddio,
Ac heb wneuthur dim â'i ddwylo;
Ni wna 'r fath dduwioldeb diog
Reidus byth yn ddianghennog.

Tra bendigaid fil o weithieu
Ydyw addyſg bur a'r moeſeu,
Yn y dref, a'r wlad, a'r deyrnas,
A ddiwygio arfer atgas.

Hwyr y daw i'r nefoedd hyfryd
Neb rhyw ddyn pan ddarffo 'i fywyd,
Sydd yn rhedeg ac wynebu
Tra fo byw at uffern orddu.

Ni bydd crefydd dda rhagorol
Yn ddaionus nac yn fuddiol,
I'r crefyddwr drwg a fyddo
Heb un rhith daioni yntho.

E haera llawer dyn yn ddiball,
Fod gantho gariad mawr at arall,
Heb fwriadu minwedd fechan,
Ond ei les a'i fudd ei hnnan.

Gwaethaf un o'r holl wyllt fulod
Yw 'r abſennwr drwg ei dafod;
Ac o'r rhai dof, medd pawb gan mwyaf,
Y gweniaithwr yw 'r enbyttaf.

Y deall ſy flaenor ac yn benaeth
Yn yſgoldy pob dyſgeidiaeth;
Ond yr 'wyllys, mewn gwirionedd,
Sy 'n cadw 'r blaen yn yſcol rhinwedd.

Y mae Sattan, tad y pechod,
Tu hwnt i neb rhyw ddyn ar wybod;
Ond ni fyn, o wir ddirieidi,
Wneuthur mymryn o ddaioni.

A thebyccaf peth i Sattan,
Oni bydd e yno 'i hunan,
Yw rhith Gristion tra gwybodol,
A fo 'n byw yn anghristnogol.

Da am dda sydd dra rhesymmol,
Drwg am ddrwg sydd anghristnogol,
Drwg am dda sydd dra chythreulig,
Da am ddrwg sydd fendigedig.

Yr hwn ni choelia Dduw, pan fyddo
Yn gorchymyn ac yn addo,
A gaiff goelio, 'r pen diweddaf,
Holl fygythion y Goruchaf.

Gochel fostio 'n fynych, fynych,
Y gweithredoedd goreu ' feddych,
Rhag cael dannod it' yn rhy-dost
Y gweithredoedd gwaetha ' wnaethost.

Pob gwatwarwr, gwnaed a allo,
O hir watwar a hir wawdio,
A gyferfydd yn ddiammeu
A rhyw un a'i gwatwar ynteu.

Na chais byth, os wyt ddeallus,
Gysiawnhau un tro drygionus;

E wna hyn o weithred ddifraint
Hyd y camwedd y dau cymaint.

*Jaco ab Dewi.*

Y byd a ſyrthiodd mewn bâr bwriadus,
A'r brodyr nid ymgar;
Am y golud mae galar:
Gelyn gan gerlyn ei gâr.

Un doeth, gwiw gyfoeth, a gofia gyngor
Rhag angeu a dirdra;
Ac un annoeth, gwn yna,
Er dim ni wna gyngor da.

*DIWEDD.*

## Mawl i'r Llyfr.

Gwel, Gymro, euro araith  ardderchog,
Dda orcheſt prydyddiaith
Bur, ddidwyll, y beirdd odiaith,
Blaid y gerdd a blodeu 'u gwaith.

Anghenrhaid enaid daioni,  yr iaith
O'r eithaf fu 'n colli;
A gwiw lwyddiant gael iddi
Iawn gymmorth i'w hymborth hi.

*Shon Rhydderch.*

# AUCTORUM NOMINA ET

et

Quando floruerint.

## B

| | | |
|---|---|---|
| *B, Aer.* | *Bedo Aeddrem.* | 1500. |
| *B. Br.* | *Bedo Brwynllys.* | 1460. |
| *Br. F.* | *Brawd Fadawg ap Gwallter.* | 1250. |

## D.

| | | |
|---|---|---|
| *D. Ed.* | *Dafydd ap Edmwnt.* | 1450. |
| *D. J. D.* | *Deio ab Jeuan Du.* | 1480. |
| *D. N.* | *Dafydd Nanmor.* | 1400. |
| *D. G.* | *Dafydd ab Gwilim.* | 1400. |
| *D. Ll.* | *Dafydd Llwyd ab Lin ab Gr.* | 1480. |
| *D. H. H.* | *Dafydd ab Hywel ab Hywel.* | 1480. |
| *D. M. T.* | *Dafydd ap Maredydd ap Tudur.* | 1400. |

## E

| | | |
|---|---|---|
| *Edm. P.* | *Edmwnt Prys, Archdiacon Meirionydd.* | 1623. |

## G

| | | |
|---|---|---|
| *G. Ll.* | *Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Eingion.* | 1400. |
| *G. Gr.* | *Gruffydd Gryg.* | 1400. |
| *Gr. J. Ll. F.* | *Gruffydd ap Jeuan ap Lln. Fych.* | 1500. |
| *G. H.* | *Gruffydd Hiraethog.* | 1530. |
| *G. Gl.* | *Gutto 'r Glyn.* | |
| *Gr. Gwef.* | *Gruffydd ap Gweflyn.* | 1400. |
| *G. O.* | *Guttyn Owein.* | 1480. |
| *G. D. Ych.* | *Gruffydd ap Dafydd Ychan.* | 1460. |
| *G. J. H.* | *Gruffydd ap Ieuan Hen.* | 1460. |

## H

| | | |
|---|---|---|
| *H. D.* | *Hywel Dafydd ap Ieuan Rhys.* | 1460. |
| *H. Ar.* | *Huw Arwystl.* | 1550. |
| *H. C. Ll.* | *Huw Cae Llwyd.* | 1480. |
| *H. Cil.* | *Hywel Cilan.* | 1480. |

## J

| | | |
|---|---|---|
| *Jeuan Brydydd Hir.* | | 1450. |
| *Jolo Goch.* | | 1400. |
| *Jor. F.* | *Jorwerth Fynglwyd.* | 1460. |
| *J. Deul.* | *Jeuan Deulwyn.* | 1460. |
| *J R ab Lln. Qu.* | | |
| *J. H. S.* | *Jeuan ap Hywel Swrdal.* | 1460. |

| | | |
|---|---|---|
| *J. B.* | *Jeuan Brechfa.* | 1500. |
| *J. D.* | *Jeuan Dyfi.* | 1490. |
| | *Jeuan Tew.* | 1580. |

L

| | | |
|---|---|---|
| *L. Mon.* | *Lewys Mon.* | 1500. |
| *L. G.* | *Lewys*, alias *Lln. Glyn Cothi.* | 1450. |
| *L. Mor.* | *Lewys Morgannwg.* | 1520. |

L..

| | | |
|---|---|---|
| *Llo.* | *Llowdden.* | 1450. |
| *Ll. G.* | *Lln. Goch ap Meurig Hen.* | 1400. |
| *Ll. Gutt.* | *Llywelyn ap Guttyn.* | 1480. |

M

| | | |
|---|---|---|
| *M. R.* | *Meredudd ap Rhys.* | 1440. |

N

| | | |
|---|---|---|
| *N.* | *Anonymus.* | |

O

| | | |
|---|---|---|
| *O. N.* | *Qu.* | |
| *O. G.* | *Owain Gwynedd.* | 1560. |

R

| | | |
|---|---|---|
| *Raff. R.* | *Raff. ap Robert.* | 1530. |
| *R. Ll. R.* | *R. Rhys Llwyd ap Rhys ap Riccart.* | 1460. |
| *R. G. Er.* | *Rhys Goch o Eryri.* | 1420. |

| | | |
|---|---|---|
| *R. G.Gl.* | *Rhys Coch Glyndyfrdwy.* | *Qu.* |
| *R. Dd.* | *Robin Ddu.* | 1400. |
| *R. R. G* | *Qu.* | |
| *R. C.* | *Rhys Cain.* | 1580. |
| *R. Teg.* | *Rhys Teganwy.* | 1480. |

S

| | | |
|---|---|---|
| *S. C.* | *Sion Cent.* | 1550. |
| *S. F.* | *Simwnt Fychan.* | 1570. |
| *S. S.* | *Sion Ceri.* | 1520. |
| *S. Br.* | *Sion Brwynog.* | 1550. |
| *S. Ph.* | *Sion Phylip.* | 1580. |
| *S. T.* | *Sion Tudur.* | 1560. |

T

| | | |
|---|---|---|
| *T. P.* | *Tomos Prys.* | 1580. |
| *T. A.* | *Tudur Aled.* | 1500. |

W

| | | |
|---|---|---|
| *W. Ll.* | *Wiliam Llyn.* | 1560. |

*FINIS AUCTORUM NOMINUM.*

Argraphedig yn Rhudd-ddwr-hydd.

ARGRAFFEDIG DROS
Y PARCH. ROBERT JONES,
YN MHERSONDY "ALL SAINTS,"
ROTHERHITHE.

BOUND BY
EDMONDS & REMNANTS
LONDON